Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 28 Medi 2017 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 22 Medi 2017.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Sir Derbyshire (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Bale, Berman, Bowden, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Congreve, Cowan, Cunnah, Davies, De'Ath, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Howells, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, Keith Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Caerhirfryn, Lay, Lent, Lister, Mackie, McEvoy, McGarry, McKerlich, Merry, Michael, Molik, Murphy, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Dianne Rees, Robson, Sandrey, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

49 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Goddard a Morgan.

50 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau

| Cynghorydd | Eitem | Buddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Hudson | Eitem 11 Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Adroddiad Blynyddol 2016/17 | Buddiant personol gan fod aelod o’r teulu’n derbyn rhai gwasanaethau cymdeithasol penodol. |
| Y Cynghorydd Carter | Eitem 13 - Hysbysiad o Gynnig | Buddiant personol oherwydd ei fod yn cael ei gyflogi gan elusen sy'n ymgyrchu neu'n ymwneud â llygredd awyr. |
| Y Cynghorydd Taylor | Eitem 13 - Hysbysiad o Gynnig | Buddiant personol oherwydd ei fod yn cael ei gyflogi gan elusen sy'n ymgyrchu neu'n ymwneud â llygredd awyr |
| Y Cynghorydd Sandrey | Eitem 13 - Hysbysiad o Gynnig | Buddiant personol fel aelod Anweithredol o Fws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Robson | Eitem 13 - Hysbysiad o | Buddiant personol fel aelod Anweithredol o Fws Caerdydd |

| | | |
|---|---|---|
| | Gynnig | |
| Y Cynghorydd Gavin Hill- John | Eitem 13 - Hysbysiad o Gynnig | Buddiant personol fel aelod Anweithredol o Fws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Williams | Eitem 11 Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Adroddiad Blynyddol 2016/17 | Buddiant Personol oherwydd ei fod yn Gyfarwyddwr Cartref Care Homes Limited sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol i bobl hŷn; ac yn Gyfarwyddwr Diverse Cymru. |
| Y Cynghorydd Lay | Eitem 13 - Hysbysiad o Gynnig | Buddiant personol fel aelod Anweithredol o Fws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Simmons | Eitem 13 - Hysbysiad o Gynnig | Buddiant personol fel aelod Anweithredol o Fws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Stubbs | Eitem 13 - Hysbysiad o Gynnig | Buddiant personol fel Cadeirydd ac Aelod Anweithredol o Fws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Patel | Eitem 13 - Hysbysiad o Gynnig | Buddiant personol fel aelod Anweithredol o Fws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Wong | Eitem 14 – Cwestiwn Llafar 8 | Buddiant Personol fel Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Uwchradd Cathays |

51 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2017 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

52 : DEISEBAU

1. Y Cynghorydd Jacobsen – 117 llofnod gan blant a rhieni yn Llandeyrn, yn galw ar y Cyngor i gadw'r gwasanaeth bysiau ysgol am ddim i Ysgol Uwchradd Llanisien
2. Y Cynghorydd Ashley Wood - 29 llofnod yn galw ar y Cyngor i gyflwyno mesurau diogelwch ar Ffordd Llantarnam er mwyn lleihau cyflymderau cerbydau.
3. Y Cynghorydd Philippa Hill-John – 75 o lofnodion yn galw ar y Cyngor i ddynodi rhan ddeheuol Palace Road fel ardal ar gyfer parcio i breswylwyr yn unig yn unol â'r cynllun a fabwysiadwyd ar gyfer gweddill Palace Road.
4. Y Cynghorydd Sandrey – 203 o lofnodion i'w hychwnaegu at ddeiseb flaenorol a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 20 Gorffennaf 2017 gan alw ar y Cyngor i gymryd camau gweithredu ac ymdrin â'r materion o barcio peryglus yn Circle Way West
5. Y Cyngorydd Ebrahim – o 35 o breswylwyr a lesddeiliaid datblygiad preswyl Century Wharf yn Dumballs Road Butetown, yn annog Cyngor Caerdydd i wireddu eu rhwymedigaeth gyfreithiol o dan rheolaeth cynllunio a mynd yn

groes i A171a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar osod eiddo yn fasnachol sy'n effeithio ar hawliau'r preswylwyr i fwynhau eu hannedd mewn heddwch. Mae'n rhaid i breswylwyr ymdopi ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y penwythnosau oherwydd fflatiau sy'n cael eu gosod yn fasnachol ar gyfer nosweithiau gwrywod a chywennod.

6. Y Cynghorydd Ebrahim – 35 o lofnodion gan breswylwyr Edward England yn galw ar y Cyngor i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol (cyffuriau ac alcohol) yn Rhodfa Lloyd George.
7. Y Cynghorydd Congreve – 28 o lofnodion i'w hychwanegu ar ddeiseb flaenorol a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 20 Gorffennaf 2017, yn galw ar y Cyngor i wneud Cylchfan Rhydypenau/Fidlas/Llandennis a Heathwood Road yn fwy diogel gyda marciau rheoli lonydd dynodedig y ffordd clir a syml
8. Y Cynghorydd Owen Jones – 425 o lofnodion yn annog y Cyngor i gadw Lawnt Fowlio Howard Gardens, Adamsdown fel man agored i'r gymuned
9. Y Cynghorydd Carter – 248 o lofnodion i'w hychwanegu at ddeiseb flaenorol a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 20 Gorffennaf 2017, yn galw ar y Cyngor i gadw'r gwasanaeth bysiau ysgol am ddim i Ysgol Uwchradd Llanisien

## 53 : CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Cwestiwn gan y cyhoedd: *Ms Alison Hood*

Beth mae'r Cyngor yn mynd i'w wneud i helpu rhieni sengl a theuluoedd sy'n gweithio nad ydynt bellach yn gymwys ar gyfer trafnidiaeth am ddim o Bentwyn i Lanisien gan nad yw £420 y flwyddyn a thaith gerdded o bron 3 milltir ar gyfer plentyn 11 oed yn fforddiadwy neu'n ddiogel?
Ymateb: *Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau, Y Cynghorydd Merry*

Rwy'n deall rhwystredigaeth rhieni a phlant, yn enwedig pan fydd rhaid iddynt gerdded heibio Ysgol Uwchradd arall ar y ffordd i Ysgol Uwchradd Llanisien. Mae hyn y ganlyniad i benderfyniad blaenorol y Cyngor a wnaed yn 2008 i gau Ysgol Uwchradd Llanedern, ac o ganlyniad cafodd y dalgylch ei ail-lunio. .

Cytunwyd ar y pryd i ddarparu trafnidiaeth am ddim i Ysgol Uwchradd Llanisien am gyfnod cyfyngedig a thros dro am 5 mlynedd o fis Medi 2011 oherwydd amgylchiadau cau Llanedeyrn.

Nid yw trafnidiaeth ysgol am ddim ar sail prawf modd ac ni chaiff ei darparu ar sail fforddiadwyedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu 3 milltir fel y pellter cerdded y mae'n rhaid i'r Cyngor ddarparu trafnidiaeth statudol am ddim i ddisgyblion o oedran ysgol uwchradd drosto. Cymhwysir y maen prawf hwn ledled y ddinas i gyd. Ni allwn ddarparu trafnidiaeth i un grŵp o ddisgyblion hen ei darparu i bawb.

Cwestiwn Atodol gan y Cyhoedd: *Ms Alison Hood*

Ydych chi'n credu bod taith dychwelyd o bron 6 milltir i'r ysgol ac yn ôl i blentyn 11 oed sydd â chlefyd y galon, nad yw'n gyfarwydd â'r ardal yn bellter dichonadwy iddo gerdded i'r ysgol ac yn ôl ar ôl diwrnod llawn yn yr ysgol, mewn tywydd gwael?

Ymateb: *Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau, Y Cynghorydd Merry*

Fel y dywedais, mae gennyf gydymdeimlad â'r rhieni a'r plant dan sylw, ond 3 milltir yw'r pellter cerdded a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Y wir, yn Lloegr, dyma'r pellter a fernir ar gyfer plant o dan 8 oed, nid 11 oed. Dyna'r pellter a gafodd ei osod a dyna'r maen prawf y mae'n rhaid i ni weithredu y tu fewn iddo.

54 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

Hanner Marathon Caerdydd
Roedd yr Arglwydd Faer yn falch o groesawu cystadleuwyr a gwylwyr o ledled y byd i Hanner Marathon Caerdydd sy'n cael ei gynnal ar ddydd Sul 1 Hydref, a dymunodd i'r holl gystadleuwyr, gan gynnwys Cynghorwyr a staff bob lwc ar gyfer y ras a'r ymgyrch codi arian dros amrywiaeth eang o elusennau.

55 : DATGANIAD CYFRIFON 2016/17 AC ADRODDIADAU CYDYMFFURFIO BLYNYDDOL

Cynigiodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Cynghorydd Weaver, y Datganiad Cyfrifon 2016/17 a'r Adroddiadau Cydymffurfio Blynyddol. Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Hinchey.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Cyngor Llawn gymeradwyo
- y Datganiad Cyfrifon archwiliedig ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2017;
- nodi adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ar Ddatganiad Cyfrifon Cyngor Caerdydd, Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, Awdurdod Iechyd Porthladd Caerdydd ac Awdurdod yr Harbwr Caerdydd ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2017;
- nodi Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2016/17; a
- nodi y caiff dogfennau ffurfiol eu llofnodi ar ddiwedd y cyfarfod cyn 30 Medi 2017.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y bu'r cyfrifon yn destun craffu trylwyr gan y Pwyllgor Archwilio a Swyddfa Archwilio Cymru, a'u rhoi ar adnau yn unol â gofynion statudol.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i Gyfarwyddwr Adnoddau a Swyddogion am y gwaith yr oedd angen ei wneud i lunio a chwblhau'r Datganiad Cyfrifon.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer Lefaryddion Cyllid o bob Grŵp i siarad cyn cyflwyno'r eitem ar gyfer trafodaeth.

Codwyd y sylwadau canlynol yn ystod y drafodaeth:
- datganiad ar iechyd ariannol Bws Caerdydd
- digonolrwydd incwm a chais i berswadio Llywodraeth Cymru i newid dyraniad Ardrethi Busnes;
- pryderon ynghylch y lefel uchel o ddyled a'r angen i gynyddu incwm

- gwerth y Gronfa Bensiwn ar gyfer Caerdydd a'r Fro a sut y gellir ei ddefnyddio

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i'r materion a godwyd mewn perthynas ag incwm ac ardrethi busnes ac esboniodd waith y Pwyllgor Pensiynau sy'n goruchwylio Cronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro. Cytunodd yr Aelod Cabinet i roi ymateb ysgrifenedig o ran Bws Caerdydd.

PENDERFYNWYD – Bod

1. bod y Datganiad Cyfrifon archwiliedig ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2017 yn cael eu cymeradwyo;

2. nodi adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ar Ddatganiad Cyfrifon Cyngor Caerdydd, Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, Awdurdod Iechyd Porthladd Caerdydd ac Awdurdod yr Harbwr Caerdydd ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2017;

3. nodi Llythyrau Cynrychiolaeth ar gyfer Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, Cronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro ac Awdurdod Yr Harbwr Caerdydd ;

4. nodi llofnodi'r dogfennau canlynol yn ffurfiol ar ddiwedd y cyfarfod:
    - Datganiad Cyfrifon ar gyfer Cyngor Caerdydd gan gynnwys Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg - Arglwydd Faer a Chyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau.
    - Datganiad Cyfrifon ar gyfer Awdurdod Harbwr Caerdydd - Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau.
    - Alldro Blynyddol Awdurdod Iechyd Porthladd Caerdydd - Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a'r Arglwydd Faer.
    - Datganiad Llywodraethu Blynyddol (oddi mewn i'r cyfrifon) - Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr.
    - Tystygrif Archwilio ar gyfer Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ac Awdurdod Yr Harbwr Caerdydd - Archwilydd Penodedig, Swyddfa Archwilio Cymru. I'w lofnodi'n ddiweddarach.
    - Llythyrau Cynrychiolaeth ar gyfer Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd - Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a'r Arglwydd Faer.
    - Llythyr o Gynrychiolaeth ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg - Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a'r Arglwydd Faer.
    - Llythyrau Cynrychiolaeth ar gyfer Awdurdod Harbwr Caerdydd - Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a'r Arglwydd Faer

5. nodi Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2016/17.

56 : STRATEGAETH AR Y GYLLIDEB

Cynigiodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneidio a Pherfformiad, Y Cynghorydd Weaver Strategaeth y Gyllideb 2018/19 a chynigion Tymor Canolig a gytunwyd gan y

Cabinet ar 27 Gorffennaf 2017. Cafodd hyn ei eilio gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Huw Thomas.

Rhestrodd yr adroddiad gynigion i atgyfnerthu a diweddaru strategaeth ariannol y Cyngor yn barod ar gyfer paratoi cyllidebau refeniw a chyfalaf 2018/19. Wedi'i gynnwys yn yr adroddiad oedd yr amserlen ar gyfer proses y gyllideb er mwyn cyflwyno Cyllideb 2018/19 i'r Cyngor ym mis Chwefror 2018; mesurau mewn perthynas â gwydnwch ariannol y Cyngor; a Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor (CATC).

Adroddodd yr Aelod Cabinet am yr heriau allweddol a'r egwyddorion cyllidebol y cytunwyd arnynt gan y Cabinet i gyflawni'r lleihad yn y gyllideb sy'n ofynnol ar gyfer 2018/19 a chyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a oedd yn cynnwys fframio'r gyllideb o gwmpas pedair rhagdybiaeth gyffredinol:

- Cap ar Dwf Ysgolion
- Gofynion arbedion
- Defnyddio arian wrth gefn
- Cynnydd yn y Dreth Gyngor.

Cafodd y bwlch yn y gyllideb ddangosol ei ragweld yn £23.5 miliwn ar gyfer 2018/19 a £73.5 miliwn ar draws cyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Gofynnwyd i gyfarwyddiaethau weithio i adnabod arbedion posibl er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r bwlch, a fyddai'n cael ei ystyried a'i ddiwygio ymhellach ar ôl derbyn manylion setliad Llywodraeth Cymru. Mae rhagdybiaethau'r Strategaeth Cyllidebau yn cynnwys cynnig i gynyddu'r Dreth Gyngor gan 3.7% er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch yn y cyllid.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai unrhyw gymeradwyaethau ar fuddsoddi cyfalaf, yn cael eu hariannu trwy fenthyca rhwng 2018/19 a 2022/23, ar gyfer adnewyddu asedau mewn perthynas â'r asedau presennol yn unig.

Yn ystod y drafodaeth, cododd aelodau faterion o gwmpas capio'r gyllideb Addysg; ansicrwydd ynglŷn â chyllid trefniadaeth ysgolion B a B; cyllido cyfalaf; cyllidol unrhyw gynnydd mewn cyflog; ac effaith a risgiau Brexit. Trafododd yr aelodau y cynnydd o ran galw am wasanaethau ac effaith gyfredol ar gyllidebau gwasanaethau cymdeithasol a Gwasanaethau Plant; yr angen i ddarparu gwelliannau mewn gwasanaethau, yn benodol ynghylch strydoedd glanach; ailgylchu ac atgyweithio'r priffyrdd. Byddai defnyddio dyraniad ychwanegol ardrethi busnes yn cefnogi y galwadau ychwanegol hyn. Mynegodd Aelod yr angen i ymgynghori fod yn bellgyrhaeddol ac yn gynhwysol i bob cymuned yng Nghaerdydd.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i'r materion a godwyd a'r penderfyniadau cyllidebol hynod anodd y byddai'n ofynnol i'r Cyngor eu gwneud.

PENDERFYNWYD – cymeradwyo fframwaith amserlen y Gyllideb fel y rhestrir yn yr adroddiad ac yn y cyfnod yn y cyfamser bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, wrth ymgynghori â'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad yn parhau i weithio trwy'r rhagdybiaethau allanol i arwain ymhellach y paratoadau ar gyfer y gyllideb pan fydd manylion setliad Llywodraeth Cymru wedi'u derbyn.

57 : ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2016/17

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Mr Ian Arundale, Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2016/17. Diolchodd y Cadeirydd yr holl aelodau Pwyllgor am gyflawni craffu cryf ar y swyddogaethau archwilio ac yn benodol diolchodd i'r Dirprwy Gadeirydd, Hugh Thomas am gadeirio dau gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio yn 2016/17. Diolchodd hefyd i'r Dirprwy Gadeirydd a oedd yn gadael ei swydd, Yr Athro Maurice Pendlebury am ei flynyddoedd lawer o ymroddiad a gwasanaethau a werthfawrogir yn fawr i'r Pwyllgor Archwilio, a chroesawodd Gavin McArthur a David Price fel aelodau annibynnol newydd a ymunodd â'r pwyllgor ar ddiwedd 2016 a dechrau 2017.

Rhoddodd yr adroddiad fanylion am waith y Pwyllgor dros y 12 mis diwethaf o ran darparu sicrwydd ar effeithiolrwydd llywodraethu, rheolaeth a rheolau risg o fewn y Cyngo; ei broses archwilio; rheoli risg a gweithdrefnau rheoli'r trysorlys ac adrodd am y datganiad cyfrifon ac arwain Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor 2016/17

Cydnabu aelodau'r Cyngor rôl bwysig y Cyngor ac ystyriwyd bod yr hunanasesiad yr ymgymerwyd ag ef gan y Pwyllgor yn flynyddol yn arfer da ac yn rhywbeth y gellid ei fabwysiadu gan bwyllgorau neu gyfarwyddiaethau eraill fel ffordd o adolygu perfformiad yn erbyn fframwaith arfer gorau; mesur deilliannau a chyflawniadau; ac adnabod meysydd i'w gwella

PENDERFYNWYD – diolch i'r Cadeirydd a'r Pwyllgor am eu diwydrwydd a'u gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a derbyn a nodi'r Adroddiad Blynyddol.

58 : ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG 2016/17

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg, Mr. Richard Tebboth Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau a Moeseg 2016/17.

Roedd prif fyrdwn y Pwyllgor wedi canolbwyntio ar

- wneud ei hun yn fwy gweladwy, drwy bresenoldeb mewn cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgor a'i friffiadau i Aelodau;
- paratoi at y sesiynau sefydlu Aelodau Etholedig newydd a hyfforddi asr y Cod Ymarfer.
- cynllunio ac ystyried y canlyniad o'r arolwg ymadael yr ymgymerwyd ag ef ym mis Chwefror 2017, yn benodol o gwmpas materion ymddygiadol a digwyddiadau honedig, ac roedd yn falch bod y Cyngor wedi llwyddo i ddarparu cymorth cwnsela cyfrinachol i'r Aelodau yn ôl y gofyn
- gwrando ar nifer o bryderon a godwyd ar lefelau ymddygiad mewn rhai cyfarfodydd llawn y Cyngor – a ddenodd sylwadau niweidiol yn y cyfryngau cyhoeddus a bu perygl o effeithio enw da y Cyngor yn gyffredinol;
- dadansoddi cwynion a adroddwyd i'r Swyddog Monitro; cyfeirio achosion i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Cymru a chwynion o dan y protocol Penderfyniad Lleol. Ymdriniwyd ag un achos oedd dros ben o'r flwyddyn flaenorol gan Banel Dyfarnu Cymru
- Parhau a'i waith o fod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo safonau arfer da a cheisio datrys problemau ar gam cynnar, yn hytrach na dibynnu ar ymateb i gwynion pan fyddant yn cyrraedd lefel fwy ffurfiol.

Diolchodd y Cadeirydd i bob aelod o’r Pwyllgor am eu gwaith a’u mewnbwn i waith y Pwyllgorau ac wrth gefnogi swyddogion y Cyngor. Fel pob amser, mae gwaith y Pwyllgor yn dibynnu’n helaeth ar y cymorth mae’n ei dderbyn gan swyddogion, yn enwedig y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a’i holl staff. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Cymuned John Hughes, a fydd yn ymddiswyddo ar ddiwedd cyfnod hir a theyrngar yn y swydd, a'r aelod annibynnol Hollie Edwards-Davies, a fydd yn ymddiswyddo ar ôl cyfnod gwasanaeth llai hir ond gweithgar.

Cododd yr aelodau nifer o faterion ynghylch yr Arolwg Ymadael a dulliau diogelu i Aelodau. Codwyd rhai pryderon ynglŷn â pha mor radical y bu ymateb y Cyngor i’r materion ymddygiadol a godwyd yn ystod y weinyddiaeth ddiwethaf a’r cymorth a roddwyd i Gynghorwyr yr effeithir arnynt gan y fath ymddygiad. Cydnabuwyd bod briffiadau'r Pwyllgor wedi tanlinellu'r negeseuon o gwmpas Codau Ymddygiad a safonau moesegol. Codwyd pryder ynghylch Aelodau’r Pwyllgor yn arsylwi ar gyfarfodydd, sylwadau cyffredinol ynghylch Aelodau’n gadael cyfarfodydd yn gynnar , teimlwyd nad oedd hyn yn gweddu'n dda i annog cydraddoldeb ac amrywiaeth aelodau y mae ganddynt o bosibl ymrwymiadau personol neu ofalu penodol ac nad oedd cyfarfodydd hir yn cefnogi aelodau yn y rolau hyn. Teimlwyd bod gan y Cyngor ddyletswydd gofal i’r holl Gynghorwyr a'u lles.
Anogwyd y Pwyllgor i sicrhau bod ei aelodaeth yn fwy amrywiol fel rhan o’r broses recriwtio sydd ar ddod.

Ymatebodd y Cadeirydd i’r materion a godwyd a phwysleisiodd bwysigrwydd grwpiau pleidiau yn cefnogi’r pwyllgor yn ei ymdrechion. Derbyniodd y Cadeirydd yr angen i gynyddu amrywiaeth ac anogodd pob Aelod i hyrwyddo yn eu cymunedau geisiadau i unrhyw swyddi gweigion sy’n codi.

PENDERFYNWYD – diolch i’r Cadeirydd a phob aelod o’r Pwyllgor Safonau a Moeseg am eu gwaith i gefnogi Aelodau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a derbyn a nodi’r Adroddiad Blynyddol.

## 59 : ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2016/17

Cyflwynodd Aelodau’r Cabinet Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles a Phlant a Lles Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2016/17. Myfyriodd yr adroddiad ar gydlyniant, cryfder ac effeithiolrwydd cynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghaerdydd, yn ei ail flwyddyn fel Cyfarwyddiaeth unigol, yn dilyn cyfuno dwy Gyfarwyddiaeth a oedd gynt ar wahân yn gwasanaethu Plant ac Oedolion yn eu trefn. Wrth ganolbwyntio ar y flwyddyn drefol flaenorol, myfyriodd yr adroddiad ar y daith barhau yn nhermau datblygiad strategol o’r tymor canolig i’r tymor hir o ran rheoli ymagwedd systemau cyfan cydlynol at alw cynyddol, gwella gwasanaethau a chynyddu pwysau ariannol. Mae natur yr heriau hyn yng nghyd-destun dinas sy’n tyfu’n gyflym, yn gymhleth ac yn fwyfwy amrywiol yn golygu eu bod yn arbennig o arwyddocaol i Gaerdydd.

Tynnodd Aelodau'r Cabinet sylw penodol at danategu projectau yn benodol ynghylch asesiadau gofal, yr hyb diogelu amlasiantaethol a chymorth i defnyddwyr gwasanaeth.

Croesawodd yr aelodau yr adroddiad a chodasant nifer o faterion ynghylch ailstrwythuro arfaethedig y rheolwyr a rôl Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a chyfarwyddwyr cynorthwyol; cymorth ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal; materion ynghylch gwasanaethau plant a chymorth ar gyfer y ddau riant ym materion gofal plant; y newidiadau i daliadau uniongyrchol.

Roedd y Cyngor yn dymuno rhoi ar y cofnod eu diolch i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Tony Young am ei waith eithriadol o dan amgylchiadau anodd iawn dros yr amser y bu'n gweithio gyda Chyngor Caerdydd gan ei fod wedi cyhoeddi y byddai'n ymddeol yn ystod 2018/8. Dymunodd yr Arglwydd Faer y gorau ar gyfer y dyfodol.

PENDERFYNWYD – derbyn a nodi Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2015/16.

## 60 : DATGANIADAU'R ARWEINYDD A'R CABINET

Derbyniwyd y datganiadau canlynol hyn:

1. Datganiad yr Arweinydd
   Ymatebodd yr Arweinydd i gwestiynau ar ei ddatganiad mewn perthynas â Chyllido Teg; y buddsoddiad cyntaf a wnaed o dan Fargen Ddinesig £1.2 bn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gydag IQE ccc yng Nghasnewydd; ac ymgysylltu â staff.

2. Aelod Cabinet, Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad
   Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar ei ddatganiad App Caerdydd; rhwydweithiau LGBT yng Nghaerdydd; a Gwasanaeth Cyfieithu Cymru.

3. Aelod Cabinet, Tai a Chymunedau
   Atebodd yr Aelod Cabinet ar ei datganiad mewn perthynas â'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda'r rhai sy'n cysgu ar y stryd yng nghanol y ddinas; y gwaith gwych sy'n cael ei wneud mewn Llyfrgelloedd ledled y ddinas a rhywfaint o sicrwydd o ran cael cyllid i'r llyfrgelloedd at y dyfodol.

4. Aelod Cabinet, Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd
   Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar ei ddatganiad sy'n perthyn i gasglu sbwriel yn y gymuned a'r mentrau 'Carwch Eich Cartref'. Gwaith y tîm Ynni a Chynaliadwyedd ac ynni solar; yr Ymrwymiad i Leihau Carbon yn benodol mewn perthynas â chartrefi newydd; a gwaith Gwasanaethau Profedigaeth.

5. Aelod Cabinet, Plant a Theuluoedd
   Atebodd yr Aelod Cabinet gwestiynau ar ei ddatganiad mewn perthynas â Phlant Sy'n Derbyn Gofal a materion Gwasanaethau Plant cymhleth a sicrhau

bod y gwasanaeth yn bodloni'r anghenion amrywiol yn y cymunedau; llwyddiant ac ymgyrch barhaus gyda'r gwasanaethau Maethu; a gwaith MASH a strategaeth cymorth cynnar.

6. Aelod Cabinet, Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles
Atebodd yr Aelod Cabinet gwestiynau ar ei datganiad mewn perthynas ag ymgymryd â gwaith ar recriwtio Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal; Diogelu a nododd y byddai'n darparu rhagor o fanylion yn ôl y gofyn. Roedd yr Aelod Cabinet yn falch o adrodd y câi Strategaeth Demensia y Cyngor ei lansio'r mis nesaf a diolchodd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion a'r cynghorwyr am eu cymorth gyda'r fenter hon.

7. Aelod Cabinet, Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth
Atebodd yr Aelod Cabinet gwestiynau ar ei ddatganiad mewn perthynas â throseddau traffig sy'n symud a'r diffyg lleoedd parcio i breswylwyr; y dyddiad arfaethedig ar gyfer y diwrnod 'dim ceir' a diwrnodau dim ceir yn y dyfodol; llwybrau beiciau; tynnu'n ôl a lleihau o ran gwasanaethau bysiau; a chyflwyno'n raddol y project goleuadau stryd LED yn barhaus.

8. Aelod Cabinet, Diwylliant a Hamdden
Atebodd yr Aelod Cabinet gwestiynau ar ei ddatganiad sy'n perthyn i ddigwyddiadau'r haf a Phenwythnos Mawr Pride Cymru; Storom Aileen a colli coed; a maes chwaraeon Clwb Rygbi Sant Alban.

9. Dirprwy Arrweinydd ac Aelod Cabinet, Addysg, Cyflogaeth a Datganiad Sgiliau
Atebodd yr Aelod Cabinet gwestiynau ar eu datganiad mewn perthynas â chanlyniadau arholiadau; rhaglen cyfoethogi yn ystod gwyliau'r ysgol a rhaglen Hawliau'r Plentyn y CU.

## 61 : CYNNIG 1

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod hysbysiad o gynnig, wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Dianne Rees sydd wedi'i eilio gan y Cynghorydd Gavin Hill-John, wedi'i gyflwyno a'i gynnwys yn y Gwysion ar gyfer y cyfarfod.

Roedd yr Hysbysiad o Gynnig fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r canlynol:

1) Fel Aelodau Etholedig mae gennym ni gyfrifoldeb dros ein Dinas ac mae hynny'n cynnwys creu cymunedau cynaliadwy, gyda chynlluniau cynhwysfawr i gyflawni datrysiadau ffyrdd a rhwydwaith sy'n gyraeddadwy.

2) Mae Caerdydd yn wynebu tagfeydd traffig a rhwydwaith sylweddol oni bai y cymerir camau brys. Mae dogfennau strategol yn cyfeirio at y ffaith bod rhwydwaith ffyrdd Caerdydd wedi cyrraedd capasiti llawn yn 2010 ac wedi mynd dros gapasiti ers hynny. Mae hyn yn effeithio ar y rhai hynny sy'n byw ac yn gweithio yn y ddinas, yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol.

3) Mae her ddifrifol yn wynebu Caerdydd o ran diffyg capasiti trafnidiaeth gyhoeddus wrth i’r ddinas dyfu yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol a thu hwnt. Mae cynnydd o ran capasiti trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghaerdydd yn hanfodol. Mae hyn o leiaf angen bod yn unol â’r rhagolygon twf sydd wedi'u cynnwys yn y CDLl, ac i baratoi ar gyfer twf mewn cymudwyr yn cyrraedd o awdurdodau cymdogol.

Mae’r Cyngor yn galw ar y Cabinet i wneud y canlynol:

1) Cynhyrchu Cynllun Gweithredu, yn seiliedig ar ddata trafnidiaeth a rhwydwaith manwl gywir a diweddaraf er mwyn mynd i'r afael â'r broblem o ran trafnidiaeth gyhoeddus fel nad yw tagfeydd yn y dyfodol yn achosi i Gaerdydd ddod i stop, er budd y rhai hynny sy’n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a’r rhai hynny nad ydynt.

2) Cyflwyno’r cynllun i’r Cyngor Llawn mewn 6 mis.

Rhoddodd yr Arglwydd Faer wybod bod dau ddiwygiad i’r Cynnig wedi’u derbyn. -

Diwygiad 1: Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Emma Sandrey

Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Nigel Howells

Yn yr adran ‘Nodiadau’r Cyngor’:

Rhoi i mewn ym mhwynt 1 ar ôl 'rhwydwaith'; '*beicio, cerddwr ac atebion y ffordd.'*

Yn yr adran ‘Mae’r Cyngor yn galw ar y Cabinet’:

Rhoi i mewn ar ddiwedd pwynt 1, ar ôl ‘nid’ *gydag ystyriaeth hefyd ar gyfer atebion beicio a cherddwyr'.*

<u>Cynigir y cynnig fel y’i diwygiwyd fel a ganlyn:</u>

Mae’r Cyngor hwn yn nodi’r canlynol:

1. Fel Aelodau Etholedig mae gennym ni gyfrifoldeb dros ein Dinas ac mae hynny’n cynnwys creu cymunedau cynaliadwy, gyda chynlluniau cynhwysfawr i gyflawni datrysiadau rhwydwaith, beicio, cerddwyr a ffyrdd sy'n gyraeddadwy.

2. Mae Caerdydd yn wynebu tagfeydd traffig a rhwydwaith sylweddol oni bai y cymerir camau brys. Mae dogfennau strategol yn cyfeirio at y ffaith bod rhwydwaith ffyrdd Caerdydd wedi cyrraedd capasiti llawn yn 2010 ac wedi mynd dros gapasiti ers hynny. Mae hyn yn effeithio ar y rhai hynny sy’n byw ac yn gweithio yn y ddinas, yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol.

3. Mae her ddifrifol yn wynebu Caerdydd o ran diffyg capasiti trafnidiaeth gyhoeddus wrth i’r ddinas dyfu yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol a thu hwnt. Mae cynnydd o ran capasiti trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghaerdydd yn hanfodol. Mae hyn o leiaf angen bod yn unol â’r rhagolygon twf sydd wedi'u

cynnwys yn y CDLl, ac i baratoi ar gyfer twf mewn cymudwyr yn cyrraedd o awdurdodau cymdogol.

Mae’r Cyngor yn galw ar y Cabinet i wneud y canlynol:

1. Cynhyrchu Cynllun Gweithredu, yn seiliedig ar ddata trafnidiaeth a rhwydwaith cywir a diweddar er mwyn mynd i'r afael â'r broblem o ran trafnidiaeth gyhoeddus fel nad yw tagfeydd yn y dyfodol yn achosi i Gaerdydd ddod i stop, er budd y rhai hynny sy’n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a’r rhai hynny nad ydynt, gan ystyried hefyd i atebion beicio a cherddwyr.

2. Cyflwyno’r cynllun i’r Cyngor Llawn mewn 6 mis.

Diwygiad 2: Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Caro Wild

Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Burke-Davies

Mae’r Cyngor hwn yn nodi’r canlynol

Pwynt 1 rhoi i mewn ar ôl rhwydwaith ‘*ac atebion ffordd. Hefyd mae gennym gyfrifoldeb dros iechyd a lles cenedlaethau presennol a rhai y dyfodol.'*

Pwynt 2 – dileu’r holl eiriau ar ôl Caerdydd a rhoi i mewn ‘mae’r Cyngor *yn cydnabod bod twf ar draws y ddinas wedi rhoi pwysau difrifol ar ein system drafnidiaeth. Rydym hefyd yn ymwybodol o’r goblygiadau iechyd difrifol o lygredd awyr a achosir yn bennaf gan gerbydau modur’.*

Pwynt 3 rhoi i mewn i’r llinell gyntaf ar ôl Caerdydd, dileu’r geiriau ‘dros ddiffyg’ a rhoi i mewn ‘*i ddarparu ...... addas'*

Ychwanegu Pwynt 4 fel a ganlyn: -

4. *Yn ogystal â trafnidiaeth gyhoeddus rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu seilwaith wedi’i wella er mwyn teithio llesol yn y ddinas. Mae beicio a cherdded nid yn unig yn darparu dewisiadau amgen i deithiau car, ond gallant wella ein hiechyd a lles yn gyffredinol.*

Ar ôl y geiriau ‘Mae’r Cyngor yn galw ar y Cabinet’, dileu'r ddau bwynt a rhoi yn ei le

1. *Er mwyn dod â Phapur Gwyrdd ger bron a galluogi sgwrs lawn gydag ystod eang o rhanddeiliaid ar ddyfodol system drafnidiaeth Caerdydd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.*

<u>Cynigir y cynnig fel y’i diwygiwyd fel a ganlyn:</u>

Mae’r Cyngor hwn yn nodi’r canlynol

1. Fel Aelodau Etholedig mae gennym ni gyfrifoldeb dros ein Dinas ac mae hynny’n cynnwys creu cymunedau cynaliadwy, gyda chynlluniau cynhwysfawr i gyflawni

datrysiadau ffyrdd a rhwydwaith sy'n gyraeddadwy. Hefyd mae gennym gyfrifoldeb dros iechyd a lles cenedlaethau presennol a rhai y dyfodol.

2. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod twf ar draws y ddinas wedi rhoi pwysau difrifol ar ein system drafnidiaeth. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r goblygiadau iechyd difrifol o lygredd awyr a achosir yn bennaf gan gerbydau modur.

3. Mae her ddifrifol yn wynebu Caerdydd o ran darparu opsiynau addas ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus wrth i'r ddinas dyfu yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol a thu hwnt. Mae cynnydd o ran capasiti trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghaerdydd yn hanfodol. Mae hyn o leiaf angen bod yn unol â'r rhagolygon twf sydd wedi'u cynnwys yn y CDLl, ac i baratoi ar gyfer twf mewn cymudwyr yn cyrraedd o awdurdodau cymdogol.

4. Yn ogystal â trafnidiaeth gyhoeddus rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu seilwaith wedi'i wella er mwyn teithio llesol yn y ddinas. Mae beicio a cherdded nid yn unig yn darparu dewisiadau amgen i deithiau car, ond gallant wella ein hiechyd a lles yn gyffredinol.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet

1. I ddod â Phapur Gwyrdd ger bron a galluogi sgwrs lawn gydag ystd eang o rhanddeiliaid ar ddyfodol system drafnidiaeth Caerdydd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig. Ar ddiwedd y drafodaeth gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Dianne Rees i grynhoi. Wrth grynhoi, cadarnhaodd y Cynghorydd Rees, er budd consensws trosblaid, ei bod yn derbyn y ddau ddiwygiad fel y cynigiwyd gan y Cynghorydd Sandrey (Rhyddfrydwyr Democrataidd) a'r Cynghorydd Wild (Llafur).

Cytunodd y Cyngor y byddai cynigwyr y cynnig a'r diwygiad yn cytuno ar eiriad terfynol y cynnig cyfunol ac y câi hyn ei adrodd yng nghofnodion y cyfarfod er mwyn eglurder i'r Aelodau.

Cymerwyd pleidlais ar y Cynnig cyfunol a CHARIWYD y Cynnig.

**Mae'r Cynnig fel y'i cytunwyd yn darllen fel a ganlyn:**

Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r canlynol

1. Fel Aelodau Etholedig mae gennym ni gyfrifoldeb dros ein Dinas ac mae hynny'n cynnwys creu cymunedau cynaliadwy, gyda chynlluniau cynhwysfawr i gyflawni datrysiadau rhwydwaith, beicio, cerddwyr a ffyrdd sy'n gyraeddadwy. Hefyd mae gennym gyfrifoldeb dros iechyd a lles cenedlaethau presennol a rhai y dyfodol.

2. Mae’r Cyngor yn cydnabod bod twf ar draws y ddinas wedi rhoi pwysau difrifol ar ein system drafnidiaeth. Rydym hefyd yn ymwybodol o’r goblygiadau iechyd difrifol o lygredd awyr a achosir yn bennaf gan gerbydau modur.

3. Mae her ddifrifol yn wynebu Caerdydd o ran darparu opsiynau addas ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus wrth i’r ddinas dyfu yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol a thu hwnt. Mae cynnydd o ran capasiti trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghaerdydd yn hanfodol. Mae hyn o leiaf angen bod yn unol â’r rhagolygon twf sydd wedi'u cynnwys yn y CDLl, ac i baratoi ar gyfer twf mewn cymudwyr yn cyrraedd o awdurdodau cymdogol.

4. Yn ogystal â trafnidiaeth gyhoeddus rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu seilwaith wedi’i wella er mwyn teithio llesol yn y ddinas. Mae beicio a cherdded nid yn unig yn darparu dewisiadau amgen i deithiau car, ond gallant wella ein hiechyd a lles yn gyffredinol.

Mae’r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet

1. I ddod â Phapur Gwyrdd ger bron a galluogi sgwrs lawn gydag ystd eang o rhanddeiliaid ar ddyfodol system drafnidiaeth Caerdydd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

62 : CWESTIYNAU LLAFAR

<u>CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR ROBSON</u>
Yn dilyn y penderfyniad i beidio â bidio am Brifddinas Diwylliant Ewrop 2023, sut mae Caerdydd am aros ar y llwyfan diwylliannol rhyngwladol?

<u>ATEB – Y CYNGHORYDD SIR HUW THOMAS</u>
Cymerwyd y penderfyniad i beidio â bidio am Brifddinas Diwylliant Ewrop 2023 yn dilyn trafodaeth helaeth a chydsynio gydag Ysgrifennydd Diwylliant Caerdydd. Fodd bynnag, er hynny. mae gen i bob hyder y bydd Caerdydd parhau i gyflwyno ei hun fel cyrchfan diwylliannol ar lwyfan y byd. Rwyf wedi sicrhau ei fod yn glir iawn mai un o flaenoriaethau fy ngweinyddiaeth yw rhoi ar waith darparu arena dan do a fydd yn denu rhai o berfformwyr mwyaf y byd i berfformio yng Nghaerdydd.

Rwyf wedi agor trafodaethau yn ddiweddar gyda’r Ysgrifennydd Cabinet dros yr Economi ar fuddsoddiad gan Gyngor y Celfyddydau i Neuadd Dewi Sant sydd eisoes yn un o'r deg lleoliad gorau yn y bydd yn nhermau perfformiadau acwstig. Mae gennym raglen o ddigwyddiadau diwylliannol wedi’i pharatoi o nawr tan yr haf nesaf ac edrychaf ymlaen at barhau gyda chynlluniau i denu cyngherddau a digwyddiadau pwysig yn y dyfodol i’r ddinas ac yn olaf byddwn rhoi awgrym o'r projectau diweddar sydd ar y gweill ac yn deillio o'n trafodaethau gyda'r sector diwylliannol mewn partneriaeth gyda rhai darlledwyr cenedlaethol, partneriaethau eraill mewn partneriaeth gyda Phrifysgolion a phrojectau a ddaw trwy’r Fargen Ddinesig felly rwy’n hydersu iawn y bydd Caerdydd yn parhau fel cyrchfan diwylliannol pwysig.

<u>CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD SIR ROBSON</u>

Mae hynny'n swnio fel ateb dirgel iawn, o ran beth sydd ar ddod ac ar y gweill. Rydych chi'n gwybod fy marn i, rwy'n credu ei fod yn gyfle a gollwyd na fidiodd Caerdydd dros fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop. Edrychwch ar Abertawe a'r hyn mae'n ei wneud ar hyn o bryd mewn perthynas â fersiwn y DU. Rwy'n meddwl bod Caerdydd, gyda'i holl ddiwylliant a chymaint yn mynd ymlaen yn y ddinas hon, wedi bod ar ei cholled fan hyn.

Rwy'n deall y cawsoch chi eich hun gyfnod byr i ystyried y bid, ond rwy'n credu, fel dinas, dylen ni fod wedi bod â bid ar y gweill ac yn fy marn i, nid oedd rheswm dros beidio.

Fy nghwestiwn i yn y bôn yw beth sydd nesaf – rydych chi wedi rhoi rhywfaint o awgrymiadau ond a oes gwobr fawr arall neu rywbeth a fydd yn rhoi Caerdydd ar lwyfan rhyngwladol, fel rhyw fath o Brifddinas Diwylliant fyd-eang neu rywbeth tebyg y gall Caerdydd gymryd rhan ynddo, oherwydd bod y projectau llai yn wych, ond y penawdau mawr sy'n gwerthu'r Ddinas i'r byd ehangach.

<u>ATEB – Y CYNGHORYDD SIR HUW THOMAS</u>
Rwy'n rhannu eich rhwystredigaeth nad oedden ni mewn sefyllfa i fynd â'r bid yn ei flaen ac roedd yr adborth yn unfrydol y dylen ni fod wedi gwneud y paratoadau hyn 18 mis neu 2 flynedd yn ôl. Y teimlad oedd, o ystyried graddfa'r paratoadau y byddai wedi bod yn rhaid i ni eu rhoi ar waith, nid oedd yn hyfyw ar y pwynt hwn ac mae hynny'n edifar gen i. Er hynny, rwy'n hyderus y bydd y gyfres honno o ymyriadau roeddwn awgrymu amdanynt ychydig oherwydd nid wyf eisiau addo gormod neu ymrwymo'n ormodol, yn parhau i roi'r Ddinas ar blatfform rhyngwladol.

Sonioch chi am ddinas diwylliant fyd-eang, wel yn sicr mae project sy'n ymwneud ag UNESCO yn un o'r pethau rydym yn edrych arnynt.

<u>CWESTIWN ATEGOL – Y CYNGHORYDD SIR TAYLOR</u>
A all Aelodau dderbyn gwybodaeth am fanylion bid Cyngor Caerdydd i Gronfa Llywodraeth Cymru i Leihau Maint Dosbarthiadau Babanod, gan gynnwys nifer yr ysgolion a'r dosbarthiadau, nifer y disgyblion y rhagamcenir y bydd yn elwa, a chynlluniau ar gyfer craffu ar y bid hwnnw, fel y gall Caerdydd gynnig i'r plant lleiaf cefnog y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i ffynnu ac i'n hathrawon y galluedd i ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol honno?

<u>ATEB - Y CYNGHORYDD SIR MERRY</u>
Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno pro-fforma'r grant i Lywodraeth Cymru yw 30 Medi. Byddwn yn hapus i drefnu bod copi o'r cyflwyniad cyflawn yn cael ei ddarparu i'r holl Aelodau.

<u>CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD SIR TAYLOR</u>
Rwy'n hapus i glywed bod y Cyngor wedi gwneud cyflwyniad i'r bid; wrth ddeall bod dros 7000 o blant yng Nghaerdydd mewn dosbarthiadau o 29 o ddisgyblion neu'n fwy yn 2016, er gwaethaf y ffaith bod angen am lawer o ymyriadau gwahanol i leihau'r bwlch o ran cyrhaeddiad rhwng y disgyblion lleiaf cefnog a'r rhai mwyaf cefnog yng Nghaerdydd.

Pa fesurau eraill mae’r Cyngor yn eu hystyried neu’n gweithio arnynt ar hyn o bryd, er mwyn lleihau'r bwlch hynny o ran cyrhaeddiad rhwng disgyblion Caerdydd?

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR MERRY
Nid wyf yn ceisio osgoi’r ateb ond mae’n gwestiwn rhy hir i’w ateb o fewn un munud, ond os hoffech chi ddod i gwrdd â mi, byddaf yn hapus iawn i eistedd gyda chi a’i drafod.

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR MCEVOY
A allai’r Arweinydd roi diweddariad ar safbwynt y Cyngor ar ddympio deunydd sydd o bosibl yn ymbelydrol yn nyfroedd Caerdydd?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR HUW THOMAS
Mae’r Cyngor yn hollol wrthwynebus i ddympio unrhyw ddeunydd ymbelydrol peryglus yn nyfroedd Caerdydd. O ran y pwynt ehangach ynghylch gwaredu deunyddiau wedi'i garthu sydd â thrwydded forol ac yn gysylltiedig ag adeiladu Hinckley Point C, gafodd ei dosbarthu gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2014, er mwyn penderfynu ar y cais, ymgymerwyd ag asesiad radiolegol llawn a ddaeth i’r casgliad bod y gynnig yn dderbyniol a chafodd hyn ei adolygu ymhellach gan arbenigwyr mewnol yn CNC a gytunodd â'r casgliad hwnnw.

Ni chafodd unrhyw ddeunydd o Hinckley Point ei dyddodi hyn yn hyn yn safle Tiroedd Caerdydd ac, oherwydd yr amser a aeth heibio ers i’r drwydded gael ei rhoi, mae’n rhaid ymgymryd ag asesiad ymhellach cyn i hyn ddigwydd.  Bydd yr asesiad hyn yn seiliedig ar set newydd o samplau gwaddodion a gymerwyd o fewn rhaglen samplo a gytunwyd gydag CNC a bydd yn cynnwys pob penderfynydd radiolegol perthnasol.

O ystyried natur y mater hwn byddaf mewn cysylltiad gydag arweinyddion y Cyngor ar hyd Aber Afon Hafren er mwyn sicrhau y caiff ein pryderon eu codi'n gadarn gyda CNC.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD SIR MCEVOY
Pan fyddant yn gwneud y samplo, mae angen iddynt sicrhau nad yw ar yr wyneb yn unig - oherwydd bod yr arbenigwyr yn dweud y bydd y deunydd mwyaf ymbelydrol o dan yr wyneb ac nid ar y top yn unig.

A ddywedoch fod angen Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol oherwydd ni fu un?  Hyd yn hyn mae dros 2122 o bobl wedi llofnodi’r ddeiseb, a fu i fyny ers 48 awr yn unig, mae hyn yn fater o bryder enfawr ac rwy'n credu y byddai'n werth cysylltu â'r holl Gynghorau o gwmpas Cymru, oherwydd os edrychwch chi ar holl symudiadau’r llanw os caiff y deunydd ei ddympio yno, rwy’n credu y bydd yn anodd iddo beidio â bod yn ymbelydrol, cafodd profion eu gwneud ac mae lefel yno, gafodd ei drosglwyddo ar y dechrau o’r môr i’r tir.

A fyddwch chi’n ysgrifenu at bob Cyngor hefyd?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THOMAS
Nid wyf yn siŵr fy mod i wedi dilyn trywydd y cwestiwn, Cynghorydd McEvoy.  Byddaf yn myfyrio ar ysgrifennu at yr holl Gynghorau yng Nghymru ond nid wyf yn siŵr bod hynny'n hollol angenrheidiol, ond mae’r ymrwymiad i gysylltu â’r holl Gynghorau gan

gynnwys y rhai yn Lloegr, ar Aber Afon Hafren yno. Yr hyn rwy'n credu sy'n bwysig i'w bwysleisio fodd bynnag, a sonioch chi yn gywir am yr angen i ymgynghori ag arbenigwyr; rwy'n cydnabod ac yn cytuno â hynny, mae'n rhaid i arbenigwyr arwain hyn, yn nhermau sut y bydd samplo yn y dyfodol yn digwydd. Rwy'n credu bod achos dros fod yn ofalus a pheidio â chodi bwganod heb angen am hyn oherwydd bod maint sylweddol o ymbelydredd yn bodoli yn naturiol a byddwn yn ofalus iawn o ran codi bwganod heb angen, wrth gydnabod wrth gwrs bod hyn yn fater difrifol a fydd yn mynd trwy'r profion llawnaf.

<u>CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR WILLIAMS</u>
Pan adroddwyd am y mater hwn yn gynharach yn yr wythnos, nododd y wasg, pan fu ymgynghoriad i ddympio gwastraff ymbelydrol â'r potensial i fod yn beryglus, parhaodd Llywodraeth Cymru i fod â barn niwtral.

Ydy'r Arweinydd yn cefnogi safbwynt Llywodraeth Cymru o ran parhau'n niwtral ynglŷn â dympio gwastraff yn nyfroedd Bae Caerdydd?

<u>ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THOMAS</u>
Yn anffodus, mae'r Cynghorydd wedi camddeall mai nid dympio gwastraff ymbelydrol peryglus yw'r cynnig, ond symud mwd o un rhan o'r aber i'r llall, nid yw hyn ynglŷn â dympio gwastraff ymbelydrol.

<u>CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR GAVIN HILL-JOHN</u>
Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chyngor Caerdydd a chynrychiolwyr Hinckley Point ac a yw'r Cyngor yn cefnogi dympio deunydd a allai fod yn beryglus yn y bae?

<u>ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL</u>
Byddwn yn eich cyfeirio ar yr ateb a ddarparwyd gan yr Arweinydd ychydig o funudau yn ôl.

<u>CWESTIWN ATODOL– Y CYNGHORYDD SIR GAVIN HILL-JOHN</u>
A fyddai'n bosibl, efallai, i gyhoeddi datganiad gan y Cyngor i ni i gyd fle Cynghorwyr fel y gallwn gefnogi unrhyw negeseuon a chyfathrebiadau sy'n mynd allan i drigolion yn ein wardiau sy'n codi pryderon gyda ni fel y gallwn osgoi codi bwganod o gwbl a sicrhau bod gennym neges gyson gan y cyngor ar y mater sensitif hwn.

<u>ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL</u>
Rwy'n credu ein bod newydd gwneud hynny.

<u>CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD SIR MCEVOY</u>
Y cwestiwn oedd pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal, sef cwestiwn syml iawn. Nodaf y sylw am godi bwganod, rwyf yn credu ei fod yn beth chwerthinllyd i'w ddweud o ystyried eich bod yn siarad am symud mwd o'r tu blaen i orsaf ynni niwclear heb AEA, sy'n hollol wallgof.

A fyddwch yn llofnodi'r ddeiseb er mwyn ceisio cael y drwydded wedi'i hatal?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL
Yr ateb yw na fyddaf, mae proses gyfreithiol mae'n rhaid i hyn fynd trwyddi ac rwy'n credu mai dyna'r ffordd gywir o'i wneud, yn hytrach nag eistedd yno a gofyn i bobl lofnodi deisebau a gwneud datganiadau heb unrhyw wybodaeth arbenigol o gwbl. Rwy'n credu y dylwn ni ei adael i'r arbenigwyr ac aros i weld y broses gyfreithiol yn mynd trwodd.

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR BERMAN
Yn dilyn eich ethol fel arweinydd y cyngor, gwnaethoch fynegi eich cefnogaeth am gynyddu defnydd ffurfiau cynaliadwy ar drafnidiaeth yn y ddinas. Un rhan o'r hafaliad hwnnw yw cynyddu cyfran o geir sy'n cael eu gyrru ar strydoedd Caerdydd sy'n defnyddio injans trydan a hybrid, ond mae Caerdydd a Chymru ar ei hôl hi o'u cymharu â rhannau eraill o'r DU o'r seilwaith angenrheidiol i gefnogi hyn. Mewn rhannau mawr o'r ddinas, gan gynnwys llawer o faestrefi mewnol dinas Caerdydd, problem ychwanegol yw bod gennym filoedd o dai sydd heb y gallu i barcio oddi ar y stryd a all roi cyfle i berchnogion ceir i ailwefru eu cerbydau yn rhwydd gartref. Pa gamau gweithredu fyddwch yn eu cychwyn i fynd i'r afael â'r heriau hyn wrth fynd ymlaen, fel y gall Caerdydd geisio arwain wrth fabwysiadau ceir trydan a hybrid?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR HUW THOMAS
Mae'r cwestiwn yn amserol, o ystyried y trafodaethau rydym wedi'u cael heno. Bues i mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan Gynnal Cymru ym mis Gorffennaf a siaradais i yno, a thrafodwyd dyfodol y car yng Nghaerdydd; cafwyd cyfraniadau gan nifer o arbenigwyr o gwmnïau sy'n ymwneud â'r diwydiant ceir trydanol.

Fel y pwysleisiais i yn y digwyddiad, mae angen i ni flaenoriaethu gwaith i gyflawni ein targed o ymraniad moddol o 50:50 o ran pob taith a wneir trwy deithio'n gynaliadwy a mewn car erbyn 2021, gan godi i 60:40 erbyn 2026. Byddai hyn yn golygu y bydd 40-50% o'r holl deithiau mewn car o hyd, felly yr her yw gwneud y car mor lân, mor wyrdd ac mor gynaliadwy â phosibl.

Rydym yn parhau i ddatblygu ffyrdd o reoli defnydd ceir yn fwy effeithiol yn y ddinas ac rydym yn cefnogi ymdrechion i leihau defnydd carbon a llygredd yr awyr yn y ddinas, trwy fwy o ddefnydd cerbydau carbon isel. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn datblygu strategaeth drafft ar Danwydd Adnewyddadwy ar gyfer Cludiant, y disgwylir iddi ffurfio rhan o Strategaeth Aer Glân ehangach yn unol â'n hymrwymiadau Uchelgais Prifddinas.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR BERMAN
Bu rhywfaint o gyhoeddusrwydd am ddarparu seilwaith am gerbydau trydanol yr wythnos hon ers i mi godi fy nghwestiwn. Rwy'n ymwybodol bod adroddiad wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru gyhoeddwyd yn 2015. Un o'r argymhellion oedd y dylid annog Awdurdodau Lleol i roi pwyntiau gwefru yn eu hadeiladau eu hunain ac rwy'n cael ar ddeall nad ydym wedi gwneud unrhyw rai.

Rwyf newydd edrych ar fap ar-lein sy'n dangos i mi bod dim ond un pwynt gwefru i'r dwyrain o ganol y ddinas yng Nghaerdydd felly os ydych yn byw mewn ardal fel y rhwydwaith o strydoedd teras ym Mhenylan nid oes gennych chi rywle y gallwch barcio eich car oddi ar y stryd ac felly ei wefru eich hun felly os nad oes pwyntiau gwefru mae hi wedi canu arnoch.

O ystyried ein bod yn ceisio fel cenedl i symud tuag at ddiddymu cerbydau petrol a diesel yn raddol a symud tuag at gerbydau trydan a hybrid, wedyn bydd angen rhywfaint o arweinyddiaeth er mwyn darparu'r seilwaith, os ydym yn mynd i lwyddo i gyflawni hynny. Pa arweinyddiaeth fyddwch chi'n ei dangos er mwyn sicrhau ein bod lle rydym angen bod?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THOMAS
Mae nifer o safleoedd ar eiddo'r Cyngor sydd â phwyntiau gwefru ar gyfer ceir trydanol gan gynnwys yn Neuadd y Sir a Lamby Way er enghraifft. Mae angen arweinyddiaeth ar draws yr ardal yn nhermau trafnidiaeth, fel y'i clywsom wedi'i esbonio mewn ffordd mor huawdl gan nifer o aelodau yn siambr hon ar y ddadl.

Byddwn yn pwysleisio na fydd ceir trydan yn datrys y mater o dagfeydd y mae Caerdydd yn ei wynebu a dim ond symudiad moddol o geir i feicio, cerdded a thrafnidiaeth gyhoeddus fydd yn rhoi'r ateb hwnnw. Gwnaeth y Cynghorydd Howells gyfathrebu yn huawdl iawn, mewn gwirionedd mewn rhai o'r wardiau mwyaf amddifad yn benodol mae'n golygu bod hanner y boblogaeth yno nad ydynt yn berchen ar gar, felly gallwn ddangos arweinyddiaeth a gallwn hefyd annog partneriaid yn benodol o'r sector preifat i yrru'r atebion hyn trwy ein bod ni'n cydnabod bod y dechnoleg yn tyfu ac yn aeddfedu o hyd ac efallai ni fydd yr hyn sydd o bosibl yn edrych fel ateb heddiw mewn gwirionedd yn ateb ym mhen deng mlynedd. Rydym i gyd yn gwybod am hanes disgiau bach a sut nad yw technoleg yn ein harwain mewn ffyrdd y byddem yn eu disgwyl. Rwy'n disgwyl bod yn gweithio gyda'r sector preifat wrth ddatblygu'r seilwaith ac nid yn pwyso ar ysgwydd y Cyngor yn unig.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR WALKER
Er ein bod yn croesawu cynnydd yn y niferoedd o geir trydanol, ac y bydd y rhan fwyaf ohonom yn gyrru un os byddwn yn gyrru unrhyw beth ymhen ychydig o flynyddoedd, clywsom yn gynharach o'r cyfeiriad at y pwyllgor trwyddedu gan y Cynghorydd Hudson, yr achosir rhan fwyaf o lygredd gan fysiau, felly sut fyddech yn ystyried yr ateb o ran gormodedd o lygredd yn nhermau bysiau a'u llygredd?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THOMAS
Pan fyddwch yn edrych ar nifer y ceir yn y ddinas o'i gymharu â nifer y bysiau; gallaf dderbyn y byddai bws unigol yn llygru'n fwy na char unigol ond byddwn yn herio hynny o ddifrif ac rwy'n hapus mynd i ffwrdd ac edrych ar y dystiolaeth o a yw hynny'n wir mewn gwirionedd. Er hynny, mae rhai trafodaethau ar y gweill gyda Bws Caerdydd ynglŷn ag edrych ar fuddsoddi mewn bysiau gwyrddach, o bosibl wedi'u pweru gan drydan ond mae angen cydnabod hefyd bod y cost uchel i'r bysiau ac mae'n rhaid eu hystyried gyda'r sefyllfa gyfan fel rhan o'r achos busnes sydd wedi'i gostio'n llawn.

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR MCEVOY
Faint o gontractau glanhau ysgolion oedd gan y Cyngor ar 01/05/2012 ac sydd ganddo nawr ers 25/09/2017?

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR MERRY
O 1 Mai 2012 ymlaen, roedd gan Glanhau Addysg 83 o gontractau ar gyfer darpariaeth glanhau mewn ysgolion.

Ers 25 Medi 2017, mae gan yr adran Rheoli Cyfleusterau 75 o gontractau.

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR WONG
A fydd yr Aelod Cabinet yn gwneud datganiad ar y llwyddiannau diweddar mewn Lefel A a TGAU ar gyfer myfyrwyr yn Ysgol Uwchradd Cathays?

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR MERRY
Byddwn wrth fy modd gwneud datganiad ar y llwyddiannau diweddar mewn Lefel A a TGAU ar gyfer myfyrwyr yn Ysgol Uwchradd Cathays, roeddwn yn eu noson gwobrwyo neithiwr ac rwy'n meddwl bod rhywbeth arbennig am Ysgol Uwchradd Cathays na ddylwn i ddweud, siŵr o fod, fel Aelod Cabinet dros Addysg.

Mae’r bwlch yn y trothwy Lefel 2+ yn llai yn Cathays nag yn yr Awdurdod Lleol a Chonsortiwm Canolbarth Y De yn ei gyfanrwydd o tua 11 o bwyntiau canran. Rwy’n credu bod hynny’n dweud llawer am y gwaith y mae'r ysgol yn ei wneud weithiau gyda phlant a fu trwy amgylchiadau personol anodd iawn, mae'n ysgol groesawus a chynhwysol.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR WONG
Mae myfyrwyr yn Ysgol Uwchradd Cathays wedi cyflawni cyfradd llwyddiant o 95% ar lefel A eleni ac mae'r holl fyfyrwyr yn mynd ymlaen i Addysg Bellach gan gynnwys disgybl a oedd yn ffoadur o barth rhyfel yn Eritrea a gyrhaeddodd yma heb air o Saesneg ac nawr mae wedi cael ei gefnogi gan staff Ysgol Uwchradd Cathays i fynd i’r Brifysgol. A all yr Aelod Cabinet ymuno â mi fel Llywodraethwr balch o Ysgol Uwchradd Cathays i longyfarch holl fyfyrwyr a staff dawnus un o'r ysgolion mwyaf amrywiol yng Nghaerdydd ar eu perfformiad rhagorol?

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR MERRY
Byddwn yn hapus iawn i wneud hynny.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR MOLIK
Rwy’n siarad i gynrychioli Ward lle y lleolir Ysgol Uwchradd Caerdydd ac fel cyn-Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Willows, gwelais y ddwy ysgol hon yn ymdrechu i berfformio i lefel eithriadol bob blwyddyn, gan geisio cyrraedd y nod. Yn amlwg mae ysgolion yn wynebu anawsterau o ran yr hyn mae'n rhaid iddynt ddarparu ar ei gyfer, ond mae'n bwysig ein bod yn canmol yr holl athrawon a'r staff sy'n ymwneud â'n hysgolion a'u helpu a'u cefnogi i gyd i gyrraedd y safon honno a dathlu'r llwyddiant gyda'i gilydd.

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR MERRY
Ie, mae’n ddrwg gen i, roeddwn i wedi fy nghynhyrfu’n lân, wrth gwrs dylwn i longyfarch yr holl ysgolion yng Nghaerdydd a’r staff ond hefyd y disgyblion, mae’n gyfnod anodd iawn i lawr ohonyn nhw yn ystod yr arholiadau ac rwy'n falch bod cymaint ohonyn nhw wedi llwyddo.

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR OWEN
Allwch chi amlinellu, os gwelwch yn dda, pa gynlluniau sydd gennych i symud o ailgylchu gwastraff ailgylchadwy cymysg i ddidoli gwastraff ailgylchadwy ymyl y ffordd yng Nghaerdydd?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL
Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynlluniau i newid o gasgliadau bag gwyrdd ar gyfer gwastraff ailgylchadwy cymysg i gasgliadau didoli ar garreg y drws.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR OWEN
Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn falch o glywed hynny. A fyddech yn cydnabod bod gan lawer o bobl ar draws Caerdydd bryderon ynglŷn ag ailgylchu ymyl y ffordd ar sail mwy o dagfeydd yn enwedig ar ffyrdd prifwythiennol gan bod casgliadau yn cymryd yn hirach, pob tro mae cerbyd casglu yn rhannol lawn mewn un ffrwd didoli, byddai'n rhaid wedyn iddo ddychwelyd i'r ganolfan, byddai anawsterau ychwanegol i bobl hŷn ac anabl yn ymdopi gyda'r newidiadau logistaidd ac yn gorfod ymdopi gyda mwy o gynwysyddion ailgylchu, does gan lawer yng Nghaerdydd erddi blaen er mwyn storio mwy o gynwysyddion ailgylchu a byddai lle yn broblem iddyn nhw; hefyd costau ychwanegol ar gyfer staff ychwanegol a fyddai'n angenrheidiol i ymdrin â'r amser ychwanegol y bydd yn ei gymryd i gwblhau casgliadau, a gallai hyn ddirymu unrhyw enillion ariannol disgwyliedig i'r cyngor oherwydd gwelliannau disgwyliedig o ran ansawdd ailgylchu gwastraff ac yn olaf, rwy'n credu yn 2013/14, cynhaliodd cyngor sir Caerdydd ymgynghoriad a dywedodd dim ond 3% o bobl yng Nghaerdydd eu bod o blaid didoli ymyl y ffordd.

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL
Er gwaethaf popeth a ddywedwyd, ni yw'r ddinas graidd orau yn y DU o ran ailgylchu, er bod tipyn o ffordd i fynd o hyd. Mae mesurau y mae angen i ni eu cymryd fel yr amlinellais i pan fues i'n bresennol yn craffu yn ddiweddar, gan ddechrau gyda'r prawf ar wydr; rydym yn colli gormod o arian o lawer, yn gynharach sylwais i fod y Ceidwadwyr yn gofyn i ni rhoi trefn ar incwm, wel dyna un o'r pethau rydyn ni'n ceisio ei wneud, mae wir angen i ni stopio colli hanner miliwn o bunnoedd o ran gwydr a'r niwed mae'n ei wneud i'r CAD a gwneud y treialon go iawn er mwyn gweld a allwn ni gasglu'r gwydr a gwneud elw ohono. Mae pethau fel hynny mae'n rhaid i ni eu gwneud, mae ansawdd yr ailgylchu yn rhywbeth arall mae angen i ni fynd i'r afael ag ef ond mae ein hailgylchu'n gweithio'n dda, mae pobl Caerdydd yn dod gyda ni, ac rwy'n credu y dylen ni ei gadw fel ag y mae.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR OWEN JONES
Hefyd, nid wyf eisiau gweld sefyllfa lle y maen pob math o eitem mewn cynwysyddion unigol, rwyf wedi gweld hyn yng Nghasnewydd a hoffwn i ddim fod yn sefyllfa eu Cyngor nhw ar ddiwrnod gwyntog. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod y cyngor o dan bwysau aruthrol i fwrw'r targedau ailgylchu a byddaf yn gofyn i'r Aelod Cabinet chwilio am ffyrdd arloesol o wella. Mae hyn yn fater pwysig i fwyafrif y trigolion ac os oes trywyddau go iawn y gallwn wella arnyn nhw o ran ein gwasanaethau, rwy'n gobeithio y gellir rhoi cynnig arnyn nhw ac os byddan nhw'n llwyddiannus, y gellir mynd ar eu hôl.

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL
Rwy’n cytuno gyda theimladau’r cwestiwn, yr hyn rydym yn ceisio ei wneud yw edrych ar bopeth yn y maes ailgylchu, faint o arian rydyn ni'n ei golli,sut gyflwr sydd ar y farchnadoedd, mae'n un o'r problemau hynny lle bod rhai di chi benderfynu beth rydych yn mynd i'w wneud, cynnal treial, mynd i’r adran caffael, dydy’r pethau hyn ddim yn gyflym, maen nhw’n cymryd amser. Mae’r cyfrifoldeb arnon ni i fwrw’r targedau, does dim dewis gyda ni mewn gwirionedd. Rwy’n mwy na hapus i gwrdd ag unrhyw aelod o unrhyw blaid unrhyw bryd er mwyn siarad am wella’r gwasanaeth i bobl y ddinas hon, mae’r drws ar agor bob amser.

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR MOLIK
Yng ngoleuni astudiaeth ddiweddar a gyhoeddwyd gan Brifysgol Caerdydd ar weithred weledol a thrwy hynny ar ansawdd bywyd person sydd â nam ar ei olwg yn cael mynediad at wasanaeth adfer i’r rhai sydd â golwg gwan, beth, yn eich barn chi, yw’r cyfnod amser a argymhellir y dylai rhyw sydd â nam ar eu golwg aros er mwyn derbyn y gwasanaeth a beth yw’r amser aros ar gyfer y gwasanaeth ar hyn o bryd?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR ELSMORE
Mae hyn yn fater pwysig felly diolch am ei godi, Cynghorydd Molik, af i’n syth at y pwynt, rydyn ni wedi cael oedi o nifer o fisoedd wrth ddarparu gwasanaethau adfer i'r rhai sydd â golwg gwan, roeddwn i mewn cyfarfod o'r Cyngor Optegol Cyffredinol ddoe yn Llundain, ac mae hyn yn fater ledled y DU. Mae ynglŷn â diffyg mynediad at swyddogion adfer cymwys.

Fodd bynnag, rwy’n falch o ddweud, o ganlyniad i’r ymchwil a gomisiynon ni ac a fidion ni amdano gyda Phrifysgol Caerdydd, rydyn ni’n datblygu llwybrau newydd a fydd yn galluogi pob unigolion sy’n cael diagnosis o nam ar y golwg i gael mynediad at wasanaethau cymorth o fewn 4 wythnos.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR MOLIK
Mae hynny’n galonogol iawn, oherwydd hyd fy ngwybodaeth i mae'n cymryd tua 6 mis ar hyn o bryd ar gyfer atgyfeiriadau brys ac hyd at 12 mis ar gyfer atgyfeiriadau nad ydynt ar frys. Yr hyn y byddwn yn ei gwestiynu yw'r adfer ar gyfer golwg gwan ac nid y gwasanaethau cymorth, mae tipyn o wahaniaeth rhwng y 2 wasanaeth rydyn ni’n siarad amdanyn nhw, mae swyddog adfer yn wasanaeth yn y cartref sy'n helpu i gynnal ac ailennill annibyniaeth trwy ddarparu hyfforddiant ar symudedd trwy asesu golau yn y cartref ac wrth gwrs eu cyfeirio a'u helpu i gael mynediad at wasanaethau eraill. Pan fyddwch chi’n siarad am rôl gweithwyr cymorth, ydyn ni’n siarad am y rhai sy’n rhoi hyfforddiant ar symudedd ac yn asesu golau ac yn cysylltu â gwasanaethau eraill.

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR ELSMORE
Ydw.

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR GORDON
Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Canllawiau Cynllunio Atodol Seilwaith Gwyrdd a gynhaliwyd yn gynharach eleni, ydy’r Cyngor wedi deall pwysigrwydd llunio CCA cryf; i ba raddau cafodd pwyntiau a godwyd gan yr ymgynghoreion eu hystyried, ac allwch roi unrhyw enghreifftiau o beth sydd wedi newid o ganlyniad i'r ymgynghoriad?

YMATEB – Y CYNGHORYDD SIR WILD
Yr CCA yw beth sy'n cryfhau ein CDLl ac yn nhermau CCA seilwaith gwyrdd y mae gwaith yn cael ei wneud arno ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth ymgynghori wedi dod i law ond mae'n cael ei pharatoi o hyd a bydd yn dod i'r cabinet llawn ym mis Tachwedd. Byddaf yn sicrhau yn bersonol y caiff yr holl ddeunydd ymgynghori ei ystyried pan fyddwn yn dod â hynny yn ôl.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR GORDON
Mae'n rhaid mai holl fyrdwn yr CCA seilwaith gwyrdd yw mwyhau a gwella bioamrywiaeth yn hytrach na chynnal a chadw'r hyn sy'n bodoli eisoes felly pryd bydd yr adborth ei hun cyn ei fod yn mynd at y Cabinet yn dod i'r cyhoedd ac i'r bobl hynny a wnaeth sylwadau ar yr ymgynghoriad.

YMATEB – Y CYNGHORYDD SIR WILD
Edrychir ar yr adborth ar hyn o bryd felly mae'n cael ei gymryd i mewn, daeth y cyfnod ymgynghori i ben; rwyf wedi dweud y bydda' i'n sicrhau y caiff yr adborth ei ystyried a deuir â'r darganfyddiadau o hynny i'r Cabinet gyda llwyth o CCAau eraill.

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR BOWDEN
Yn yr Unol Daleithiau mae Adran Parciau Efrog Newydd ac ardal ysgolion Unedig Los Angeles ymhlith eraill, wedi rhoi moratoriwm ar gyflwyno meysydd artiffisial briwsion rwber oherwydd pryderon am garsinogenigrwydd y deunydd a ddefnyddir wrth weithgynhyrchu'r meysydd hyn. Mae astudiaeth* i ddiogelwch y deunydd yn cael ei chynnal ar y cyd gan Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd, y Canolfannau ar gyfer yr Asiantaeth Rheoli ac Atal Clefydau a chomisiwn Diogelwch Cynhyrchion Defnyddwyr yr UDA. Mae'r adroddiad hwn i gael ei gyhoedd yng nghanol 2018.

A fydd y Cyngor yn rhoi moratoriwm ar gyflwyno'r meysydd artiffisial briwsion rwber newydd yng Nghaerdydd nes y gwyddys am yr adroddiad hwn, ac os bydd yr adroddiad yn nodi problem diogelwch posibl i adolygu'r meysydd presennol yn y ddinas?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR BRADBURY
Rwy'n ymwybodol o'r sylw gan y cyfryngau a'r adroddiadau sy'n gysylltiedig â'r astudiaethau dilynol sy'n cysylltu meysydd artiffisial â'r clefyd rydych chi'n sôn amdano.

Cynhaliodd FIFA ddadansoddiad o'r mater yn ôl yn 2006, a ddaeth i'r casgliad clir – ar y pryd- nad oedd y corff o ymchwil gwyddonol oedd ar gael yn cadarnhau'r dybiaeth y gallai canser o bosibl ddigwydd o ganlyniad i ddod i gysylltiad â deunyddiau mewnlenwi gronynnog mewn tywarch artiffisial.

Ers hynny, cynhaliwyd nifer o astudiaethau ymchwil annibynnol, ond hyd yn hyn nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n cefnogi'r pryderon iechyd a godwyd.

Mae fy safbwynt yn glir ar y mater hwn. Mae diogelwch defnyddwyr ein cyfleusterau chwaraeon yn hollbwysig, ond nes bod prawf a thystiolaeth wyddonol go iawn, sy'n dangos yn derfynol nad yw'r meysydd artiffisial hyn yn ddiogel, does dim gan y Cyngor unrhyw gynlluniau i gyflwyno moratoriwm o'r fath.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR BOWDEN
Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod i wedi fy syfrdanu gan eich ymateb i hyn, mae 2006 amser hir yn ôl, yn nhermau'r astudiaeth honno gan FIFA ac mae gen i astudiaethau yma rwyf wedi llwyddo i'w cael, peidiwch ag ysgwyd eich pen arna' i, Cynghorydd Bradbury. Hoffwn i wybod pa gamau mae'r Cyngor wedi'u cymryd i rybuddio defnyddwyr y meysydd 3G a chlybiau sy'n defnyddio ein meysydd o'r risg bosibl i iechyd, yn enwedig ble mae niferoedd yn datblygu non-Hodgkin'r lymphoma ymhlith gôl geidwaid.

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR BRADBURY
Â phob parch i'r Cynghorydd, rwy'n gweld y codi bwganod hwn rydych chi wedi bod yn ei wneud yn anhygoel pan nad oes unrhyw dystiolaeth wyddonol sy'n cysylltu beth rydych chi'n siarad amdano ag achos canser ar y foment. Mae'r cyngor yn gweithio gyda Chymdeithas Bêl-Droed Cymru, i dawelu eich meddwl, a chyda'r awdurdodau perthnasol ar hyn ac ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw beth hyd yn hyn i gysylltu'r ddau beth. Yr hyn rydych chi'n ei hyrwyddo, Gynghorydd yw cau'r 3Gs ym Mharc y Mynydd Bychan. Parc Trelai, Mall, Ysgol Esgob Llandaf, Ysgol Uwchradd Caerdydd, Prifysgol Caerdydd, ac yn cynnwys y sector preifat, megis Power League a House of Sport. Er mwyn hyrwyddo hynny, rydych chi'n gofyn am foratoriwm tan ein bod yn darganfod a yw'r meysydd yn ddiogel neu beidio, os ydym yn dweud hynny rydym yn beirniadu rhywbeth pan fyddwn ni heb dystiolaeth y tu ôl iddo, â phob parch, nes bod gen i brawf gwyddonol mae cysylltiad, nid wyf yn fodlon mynd ar ôl y trywydd hynny.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR WILLIAMS
Rwy'n credu ei fod yn gwestiwn pwysig iawn, ac nid wyf yn credu bod y Cynghorydd Bradbury wedi mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn gynhwysfawr. Mae Adran Parciau Efrog Newydd ag Ysgolion Unedig Los Angeles wedi comisiynu astudiaethau oherwydd eu bod yn credu bod ganddynt bryderon go iawn am iechyd a diogelwch defnyddwyr y meysydd. Yr hyn mae'r Cynghorydd Bowden yn gofyn amdano yw atal dros dro unrhyw feysydd a ddatblygwyd o fewn y ddinas hyd nes y caiff y darganfyddiadau eu cyhoeddi yng nghanol 2018. Ydy'r cyngor wedi ceisio cyngor cyfreithiol ar unrhyw hawliau posibl y mae'n bosibl y cânt eu codi ac yn ail a yw'r Cyngor wedi paratoi cronfa lle y gall aelodau geisio cyngor os bydd angen.

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR BRADBURY
Â phob parch, pan na fydd unrhyw brawf gwyddonol o'r cysylltiad rhwng canser a'r deunydd hwn eto, nid wyf yn mynd i godi bwganod gyda'r cyhoedd trwy ddweud nad ydym yn mynd i adeiladu rhagor o feysydd 3G, yn enwedig ar adeg pan fydd meddygon yn dweud ledled y ddinas hon, er mwyn ymdrin â gordewdra plant a thrwy gael mwy o bobl i mewn i chwaraeon, mae angen i ni adeiladau rhagor o gyfleusterau chwaraeon yn y ddinas. Os bydd cysylltiad a brofwyd gan yr astudiaethau a ddaethpwyd â nhw i'r amlwg yn y cwestiwn hwn, ac nid yw i gael ei chyhoeddi tan 2018, yna byddwn yn edrych arno eto. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw brawf wyddonol bod cysylltiad. Rwy'n dweud wrthoch chi bod y gymuned chwaraeon wedi bod yn ymwybodol iawn o'r pethau hyn ac bu clybiau nad ydynt yn y gynghrair yn adrodd amdano yn eu papurau, mae Gleision Caerdydd hefyd wedi sôn am hyn yn y gorffennol, mae astudiaethau ar-lein gan bobl yn Turf World, sy'n sicrhau i'w gwsmeriaid fod hyn yn ddiogel. Fy safbwynt i yw nes bod prawf sylfaenol fod hyn yn beryglus ac nid oes, ni fydd unrhyw foratoriwm.

CWESTIWN – CYNGHORYDD SIR COWAN
Faint a dalwyd i'r gwasanaeth rheoli gwastraff, o fis i fis, dros y 12 mis diwethaf, dros y 12 mis nesaf?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL
Yn ystod y 12 mis diwethaf hyd at ddiwedd mis Awst, cafodd £519,027 ei wario ar oramser yng Ngwasanaethau Gwastraff, sy'n cynnwys pob gweithrediad o weithgareddau masnachol, casgliadau, depos, canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref, prosesu a thrin gwastraff. Mae bron hanner y gwariant hwn i gefnogi gweithgareddau incwm masnachol.

Gallaf roi dadansoddiad manwl fesul mis i chi ar ôl y cyfarfod.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR COWAN
Diolch, os gallwch chi roi ymateb i mi yn syth ar ôl y cyfarfod, pam nad ydych wedi ei ddarparu yn ystod y cyfarfod fel y gall y cyhoedd a'r Cynghorwyr ei weld ar unwaith, rwy'n meddwl eich bod yn ymddwyn ychydig yn ffuantus. Mae'n rhaid i mi ddweud, fel y bydd y rhan fwyaf o bobl ar nos Wener neu nos Sadwrn yn mynd allan a mwynhau pryd o fwyd a siarad â ffrindiau ac yn y blaen, yn Rhiwbeina, treulir nos Wener a nos Sadwrn i mewn gyda phroblemau gwastraff, naill ai biniau heb eu gwagio, casgliadau bagiau gwyrdd a gollwyd, biniau dim ond hanner wedi'u gwagio. Dyma roi un enghraifft sy'n achosi rhwystredigaeth, roedd un bin gwyrdd â dim ond un papur lapio siocled ynddo, gwrthododd y Cyngor ei gasglu felly wedyn roedd rhaid i'r pobl gwastraff fynd yn ôl eto y diwrnod wedyn i'w gasglu ac wedyn anfonon nhw rywun yn ôl y diwrnod wedyn nad oedd wedi dweud wrth y person arall nad oedd wedi'i gasglu. Mae'n ymddangos fel mater bach ond beth rydych yn ei wneud i fynd i'r afael â'r materion parhaus hyn yn enwedig yn Rhiwbeina sy'n peri rhwystredigaeth a dicter i bawb.

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL
Dw i ddim yn ffuantus, rwy'n ceisio eich arbed rhag gwrando ar hyn i gyd wedi'i eitemeiddio, rwy'n hapus i'w roi i chi, nid yw'n broblem ac mae wedi'i gofnodi fel y gall y cyhoedd ei gael. Er mwyn rhoi hwn mewn cyd-destun, yn eich Ward chi mae gennych 2147 o dai sy'n gyfwerth â chodi gwastraff 666911 gwaith y mis, mewn geiriau eraill, 802,932 gwaith y flwyddyn. Fel cyfanswm ar gyfer un flwyddyn a dw i ddim eisiau gweld 1, bu 609 o gasgliadau a gollwyd allan o 802,932. I'ch helpu chi ymhellach rwyf wedi llwyddo i gael yr ystadegau i'w hadrodd, yn y flwyddyn honnon rydych chi wedi adrodd am 12 achlysur. Gallwch ddadlau cymaint â mynnwch chi, rwy'n ymdrin â'r ystadegau fel y maent gen i. Rhowch hyn mewn cyd-destun , dw i ddim eisiau gweld 1 casgliad a gollwyd ond mae myrdd o resymau pam mae'n digwydd, mae'r storom ddiweddar, Cynghrair y Pencampwyr, gwaith ar y ffordd yn rhai o'r rhesymau. Mae tîm pwrpaso sy'n gofalu am gasgliadau a gollwyd, does dim goramser yn cael ei dalu am gasgliadau a gollwyd.

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR WOOD
Er gwaethaf preswylwyr yn sicrhau eu bod yn cyflwyno eu gwastraff, ar ôl casgliadau yn aml fydd biniau olwynion a chadis ddim yn cael eu dychwelyd i'r pwynt cyflwyno. Mae preswylwyr yn adrodd am finiau'n cael eu gadael yng nghanol y palmant, yn blocio dreifiau neu y tu allan i eiddo cyfagos. Yn benodol, gall y rhain sy'n cael eu gadael yng nghanol palmentydd achosi anhawster i'r preswylwyr hŷn a'r defnyddwyr

cadeiriau olwynion sy'n ceisio mynd heibio, ac mewn amodau gwyntog heb gysgod gan waliau neu ffensys, mae'r biniau'n fwy tebygol o chwythu drosodd neu i mewn i'r ffordd. A allai'r Aelod Cabinet gadarnhau a ddisgwylir i dimau casglu gwastraff ddychwelyd biniau a chadis i'r pwynt cyflwyno? Os na, oes esboniad am hyn?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL
Mae'r gweithredwr yn cael cyfarwyddyd i ddychwelyd biniau a chadis i safle addas nad yw'n achosi rhwystr ar y palmant. Fel arfer dyma'r lle y cafodd y bin neu'r cadi ei gyflwyno.

Pan gaiff cwyn ei derbyn, caiff y criw casglu ei nodi a bydd ailhyfforddi neu gamau gweithredu yn digwydd fel sy'n briodol. Mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd, gan gofio ein bod yn codi 24 miliwn o weithiau wedi derbyn 24 o gwynion yn unig mewn perthynas â'r mater hwn.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR WOOD
Efallai bod 24 o gwynion yn unig ond rwy'n ymwybodol o breswylwyr yn codi'r mater hwn i C2C ac mae'n cael ei drosglwyddo i'r adran berthnasol a dyna'r ymateb maen nhw'n ei chael, er y bu hyn yn fater nad yw'n effeithio ar bob dosbarthiad ond mae'n ailddigwydd, felly a allaf gael ymrwymiad y byddwch yn edrych ar beth gallwch ei wneud i wella cysondeb casgliadau biniau oherwydd pan gaiff y biniau eu gadael allan o'u lle, mae'n achosi niwsans ac mae'n rhywbeth y bydd preswylwyr yn gwneud sylwadau arno i mi oherwydd ei fod yn achosi anawsterau i'r rhai nad ydyn nhw mor abl, yn enwedig pan fydd ganddyn nhw broblemau gyda'u golwg.

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR MICHAEL
Rwy'n cydnabod y broblem, yr un peth â pheidio â chasglu biniau, rydyn ni'n cwrdd â chriwiau bob amser, rydyn ni'n siarad â nhw trwy'r amser, rydyn ni'n eu hailhyfforddi trwy'r amser a byddwn ni'n parhau hyd nes na fydd unrhyw gasgliadau yn cael eu methu a'r gobaith y caiff biniau eu rhoi yn y safle cywir.

CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD SIR DE'ATH
A allai'r Aelod Cabinet restru'r weledigaeth tymor hirach ar gyfer datblygu economaidd yng Nghaerdydd a'r rhanbarth ehangach?

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR GOODWAY
Bydd y Cynghorydd Sir yn ymwybodol bod rhaglen y Weinyddiaeth newydd, a ddisgrifir yn y ddogfen *Uchelgais Prifddinas*, yn ymrwymo i gyhoeddi Papur Gwyrdd a gynllunnir i adeiladu consenswS ar draws pob sector a rhanddeiliad ar y weledigaeth economaidd yn y dyfodol ar gyfer y ddinas.

Mae Arweinydd y Cyngor Sir wedi ei wneud yn glir i mi ei fod yn awyddus i gyflawni'r berchnogaeth ehangaf posibl o agenda datblygu economaidd y Sir a ddaw fel canlyniad.

Rwy'n bwriadu dosbarthu'r Papur Gwyrdd ar ffurf Datganiad Ysgrifenedig, y mis nesaf a byddaf yn ceisio caniatâd yr Arglwydd Faer i amserlennu trafodaeth briodol ar y Papur Gwyrdd mewn cyfarfod y Cyngor Sir yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod pob aelod etholedig yn cael cyfle i ddylanwadu ar gyfeiriad polisïau yn y dyfodol.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR DE'ATH
A allwch chi amlinellu sut fyddech chi'n hoffi gweld twf cynhwysol yn cael ei achosi yng Nghaerdydd a'r rhanbarth ehangach yn y dyfodol, sut fyddech chi'n diffinio twf cynhwysol a'i fesur a sut fyddech chi a'ch swyddogion yn rhoi ystyriaeth i fabwysiadu set o ddangosyddion sy'n debyg i'r monitor twf cynhwysol a ddatblygwyd gan Brifysgol Sheffield Hallam gyda'r Sefydliad Joseph Rowntree.

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR GOODWAY
Gadewch i ni weld beth fydd canlyniad y Papur Gwyrdd a byddaf yn ffurfio barn bryd hynny.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR BOYLE
I ba raddau rydych chi'n credu bod y weledigaeth hir dymor ar gyfer datblygu economaidd yng Nghaerdydd yn cael ei bygwth gan Brexit?

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR GOODWAY
Does neb yn gwybod pa effaith y bydd Brexit yn ei chael naill ai ar economi'r DU neu Gaerdydd, amser yn unig a ddengys.  Fodd bynnag, yr hyn mae'n rhaid i ni ei ddeall yw bod y pobl wedi siarad, mae'r 2 blaid fwyaf yn Nhŷ'r Cyffredin wedi ymrwymo i Brexit a dyna, mae'n ymddangos, yw'r cyfeiriad rydyn ni'n mynd iddo; fy nghyfrifoldeb yw rhoi Caerdydd mewn sefyllfa i gymryd mantais o'r holl gyfleoedd beth bynnag ar ba ffurf y bydd Prydain ar ôl Brexit, mae'n rhaid i Gaerdydd fod ar flaen y gad i fod nid yn unig yn Brifddinas ar y genedl hon ond i fod yn Ddinas Brydeinig bwysig yn y byd newydd.

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR WILLIAMS
Ar 25 Medi arestiodd ditectifau a oedd yn ymchwilio i'r ymosodiad terfysgol yn Parsons Green ddyn 20 oed mewn cyfeiriad yn ardal Y Rhath yng Nghaerdydd mewn cysylltiad â'r ymosodiad. Yn ddiweddar bu nifer o arestiadau yng Nghaerdydd mewn perthynas ag eithafiaeth Islamaidd. A allech ddarparu diweddariad ar y Strategaeth 'Prevent' mewn perthynas â Chaerdydd fel Awdurdod Lleol a'r camau sy'n cael eu cymryd i atal a mynd i'r afael â phob math o radicaleiddio a allai yn ei dro arwain at derfysgaeth?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THORNE
Mae'r Cyngor yn cymryd rôl arweiniol mewn perthynas â strategaethau CONTEST a PREVENT Llywodraeth Y DU, gan weithio gyda'n cymunedau a'n partneriaid, gan gynnwys yr Heddlu Uned Eithafiaeth a Gwrth-derfysgaeth Cymru (WECTU) er mwyn dileu gweithgarwch eithafol a lleihau'r tebygolrwydd o unigolion yn cael eu radicaleiddio.

Rydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid a chymunedau i'w helpu i adnabod ideoleg eithafol a rhoi'r wybodaeth a'r hyder iddynt ddarparu naratif gwahanol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gweithdai er mwyn codi ymwybyddiaeth o Prevent a gwaith arall a dargedir gyda chymunedau, sy'n canolbwyntio ar ystod o ideolegau gan gynnwys eithafiaeth y dde eithaf ac eithafiaeth a ysbrydolir gan Islam.

Cafodd ymagwedd Caerdydd ei chydnabod gan y Swyddfa Gartref ac Estyn fel arfer da sy'n genedlaethol arwyddocaol ac rwy eisiau talu teyrnged i ymdrechion yr heddlu a swyddogion y cyngor sy'n gweithio yn y maes heriol a hynod sensitif hwn.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR WILLIAMS
Byddwn yn ymuno â'r Cynghorydd Thorne wrth ganmol gwaith diflino swyddogion y Cyngor a'r Lluoedd Gwrthderfysgaeth wrth iddynt ein cadw yn ddiogel a chadw Caerdydd yn ddiogel. Mae'n rhaid mai blaenoriaeth gyntaf y Cyngor yw diogelwch a diogeledd Dinasyddion Caerdydd, fel cyngor beth rydym yn ei wneud i ymgysylltu â phobl ifanc yn ein hysgolion a'n canolfannau ieuenctid er mwyn canolbwyntio ar atal radicaleiddio oherwydd ein bod yn gwybod y gall yn ei dro droi at eithafiaeth ac yna i derfysgaeth. Felly beth rydym yn ei wneud i ymgysylltu ag ysgolion a rhanddeiliaid eraill?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THORNE
Rwy'n credu bod y ffaith yr ystyrir ein strategaeth yn arfer rhagorol yn dweud ein bod yn gwneud llawer iawn, rydym yn gwneud gwaith helaeth gyda sefydliadau lle y mae'n bosibl y bydd risg uchel o radicaleiddio megis ysgolion, colegau, prifysgolion ac mae proses a fewnosodwyd yn gweithio gyda phartneriaid i adnabod unigolion y mae'n bosibl y byddant mewn perygl o radicaleiddio er mwyn darparu ymyriadau priodol ac mae Strategaeth Prevent Caerdydd yn ffocysu ar y 3 maes canlynol; ideoleg, sefydliad ac unigolion.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR MOLIK
Fy mhwynt i mewn gwirionedd yw cydnabod nad yw eithafiaeth yn gysylltiedig ag unrhyw grefydd ac felly mae'r geiriad yn y cwestiwn yn anghywir. Pan fyddwn yn cysylltu eithafiaeth ag arferion crefyddol, na ddylai fod yn digwydd, rydym mewn gwirionedd yn caniatáu i'r camau gweithredu eithafol dyfu. Mae angen i ni fod yn ofalus iawn yn nhermau sut rydym yn gweithredu ac yn ymyrryd â'r rhain. A gaf i ofyn i'r Cynghorydd Thorne gytuno gyda fi nad yw eithafiaeth yn gysylltiedig ag Islam?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THORNE
Rwy'n cytuno, rydym yn edrych ar eithafiaeth o bob maes gan gynnwys y dde eithaf ac nid yw'n gysylltiedig ag Islam neu ag unrhyw grefydd arall.

Y CYNGHORYDD SIR WILLIAMS
Cafodd y cwestiwn ei eirio i fynd i'r afael â phob ffurf ar radicaleiddio a therfysgaeth a dyfynnais i Heddlu De Cymru a'r Heddlu Metropolitan a gydnabu bod nifer o arestiadau yng Nghaerdydd mewn perthynas ag 'Eithafiaeth Islamaidd'. Diolch, Arglwydd Faer.

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR SANDREY
Beth fu'r ymateb i'r polisi Gwyliau Blynyddol Ychwanegol ymhlith cyflogeion cyngor?

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR WEAVER
Yn 2015/16, ymgymerodd 193 o gyflogeion â'r polisi, yn 2016/17, 227 oedd y nifer ac hyd yn hyn eleni ymgymerodd 150 o gyflogeion y polisi.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR SANDREY
Mae'r ffigurau hynny'n swnio'n weddol isel, felly yn eich barn chi pam rydych chi'n credu eu bod mor isel a beth arall gaiff ei wneud er mwyn cynyddu y niferoedd sy'n ymgymryd â'r polisi.

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR WEAVER
Maen nhw'n gymharol isel yn nhermau nifer ein cyflogeion yn y cyngor ond mae'n un o'r cyfleoedd sydd gan gyflogeion i gymryd un o'r buddion y gallant ymgymryd â nhw. O'r ffigurau rwyf wedi'u gweld mae hynny wedi arbed tua £300,000 i ni trwy'r cynllun gwirfoddol trwy'r cynllun gwirfoddol hwn y mae'n amlwg y'i croesewir fel unrhyw gyfraniad i'r gyllideb. Mae'r cyngor yn hyrwyddo ein holl fuddion staff a'r opsiynau sydd gan staff drwy nifer o ddulliau gan gynnwys yr app staff a llawer o bethau digidol er mwyn hyrwyddo pethau i staff. Byddaf yn gwirio ac yn sicrhau y cafodd y polisi ei hyrwyddo hefyd ond rwy'n cael ar ddeall fod hyn wedi digwydd, mae'n fater i'r staff ydynt am ei gymryd nei beidio, ac mae'n un o ystod o bethau rydyn ni'n eu cynnig iddyn nhw.

CWESTIWN – CYNGHORYDD SIR DE'ATH
Roeddwn i'n falch o ddarllen yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2016-17 fod taflen wybodaeth ar gyfer gyrwyr tacsis yn ymwneud ag atal Camfanteisio'n Rhywiol Ar Blant (CSE) wedi'i datblygu gan Wasanaethau Plant ar y cyd ag Adran Trwyddedu Caerdydd a bydd yn barod i'w dosbarthu i'r 2,200 o yrwyr trwyddedig yn y ddinas yn yr wythnosau i ddod. Allech chi gadarnhau ym mha ieithoedd y bydd y daflen hon?

ATEB – Y CYNGHORYDDD SIR HINCHEY
Gallaf gadarnhau y bydd y daflen ar gael yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. Ystyrir y bydd cyfieithu i nifer gyfyngedig o ieithoedd allweddol eraill yn briodol.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR DE'ATH
Rwy'n croesawu'r fenter hon sef gweithlu amrywiol iawn yn gyrru tacsis yn y ddinas o bedwar ban byd a phe gallech chi weithio gyda grwpiau fel y Fforwm Gyrwyr Tacsis, gydag Undeb Llafur y GMB sy'n cynrychioli llawer o yrwyr, i hyrwyddo'r wybodaeth hon mewn llawer o ieithoedd heblaw am Saesneg, byddai hynny'n wych. Ychydig o flynyddoedd yn ôl bu swyddogion yn gweithio gyda'r Elusen BAWSO i arddangos gwybodaeth am fasnachu pobl mewn tacsis, bu ychydig o rwystrau ynglŷn â beth gellid ei arddangos o dan y rheoliadau, a wnewch chi edrych ar hynny gyda'r Cynghorydd Elsmore, sy'n arwain ar fasnachu pobl er mwyn gweld a allwch chi ei symud ymlaen fel rhan o'r darn hwn o waith rydym yn ei wneud gan edrych ar economi'r nos.

ATEB – Y CYNGHORYDDD SIR HINCHEY
Rwy'n fwy na hapus i weithio gyda'r Cynghorydd Elsmore ac i siarad â chi ynglŷn â hynny. Yn nhermau'r iaith ac argraffu, yn amlwg mae angen i ni gydymffurfio â'r gyfraith, sef Cymraeg a Saesneg ac rwy'n siŵr eich bod yn gwybod am y rhai a fu'n byw yng Nghaerdydd ers amser hir, mae llawer o ieithoedd ymhlith gyrwyr tacsis a siaredir, mae'n amlwg o fewn eu canllawiau a'r hyfforddiant, mae'n rhaid iddyn nhw gydymffurfio â rhywfaint o Gymraeg a Saesneg yn nhermau llwybrau a ffioedd, cyrchfannau a diogelwch felly os oes angen, rwy'n siŵr y byddwn yn edrych arno.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR MOLIK
Rwy'n croesawu'r daflen wybodaeth a roddwyd yn nhermau Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant i yrwyr tacsis, ond roeddwn i eisiau gwybod pa gamau gweithredu sy'n cael

eu cymryd er mwyn cyfathrebu â phlant ifanc o ran sut i gadw eu hunain yn ddiogel rhag troseddau CSE.

ATEB – Y CYNGHORYDDD SIR HINCHEY
Mae'r strategaeth CSE ar waith, rydyn ni newydd benodol rheolwr gweithredol newydd, rydym yn cynnal rhywfaint o sesiynau briffio ar y pwnc penodol hwnnw yn y dyfodol agos ac rwy'n siŵr y cewch hi wahoddiad i fod yn rhan o hynny. Ei henw yw Jan Coles, sy'n un o arbenigwyr Cymru ar CSE a bydd hi'n ymuno â ni yn yr ychydig wythnosau nesaf.

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR PHILIPPA HILL-JOHN
A fydd y Cyngor yn bwriadu mabwysiadu siarter gofal cymdeithasol fel siarter gofal moesegol UNISON a fabwysiadwyd gan gynghorau eraill ar draws y wlad?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR ELSMORE
Mae'r egwyddorion a gedwir yn siarter gofal moesegol UNISON eisoes wedi'u cadw yn ein gwerthoedd fel Cyngor yn gyffredinol ac yn ein hymagwedd at ddarparu gofal cymdeithasol da. Mae ein Huchelgais Prifddinas ar gyfer Caerdydd yn ymrwymo i ddarparu'r ansawdd uchel o ofal cymdeithasol posibl, o ran arfer a darpariaeth.

Ni chewch eich synnu o wybod bod gan y Cyngor gytundebau partneriaeth a chyfleusterau eisoes gyda'r tri phrif Undeb Llafur yn y sector gofal cymdeithasol, h.y. UNISON, GMB AC UNITE.

CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD SIR GORDON
Yn dilyn sylwadau gan yrwyr tacsis am annhegwch y ffordd y mae tacsis Uber yn gweithredu yng Nghaerdydd, lle y mae gormod o drwyddedau - a allai Caerdydd ystyried dilyn Trafnidiaeth Llundain a dod â'r drwydded Uber i ben?

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR JACKIE PARRY
Gallaf gadarnhau nad yw'r Cyngor yn ystyried diddymu trwydded y gweithredwr a roddwyd i Uber y llynedd.

Mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad gan y Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd i ddiddymu trwydded gweithredwr neu yrrwr fod yn seiliedig ar dystiolaeth a daw ynghyd â hawl apelio i Lys yr Ynadon lle y câi sail y penderfyniad ei phrofi.

Rwy'n nodi eich sylw bod gormod o drwyddedau'n cael eu dosbarthu yng Nghaerdydd, ond does dim gan y Cyngor y pŵer i roi terfyn ar nifer yr yrwyr a drwyddedir. Gall ond sicrhau y caiff trwyddedau eu dosbarthu i unigolion addas a phriodol.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR GORDON
Ydych chi'n fodlon bod y gyrwyr Uber yn dilyn y rheoliadau, yn benodol o gwmpas gwiriadau i gofnodion troseddol?

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR PARRY
Dw i ddim yn gwybod a yw hynny'n briodol ond er hynny rwy'n fodlon fy mod yn gofyn i'r swyddogion ein bod yn siarad â'r heddlu ayyb ac os bydd unrhyw beth anffodus o gwbl, mae'n dod aton ni ac rydyn ni'n cynnal cyfarfodydd bob pythefnos

neu bob wythnos ac weithiau rydyn ni'n cael cryn dipyn o yrwyr tacsis yno; mae'r achosion yn seiliedig ar dystiolaeth, mae pob achos ar ei rinwedd ei hun.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR CARTER
Rwy'n gwybod bod gyda phob un ohonon ni ein hoff gwmnïau tacsis; a fyddech yn cytuno gyda mi nad yw'n ddefnyddiol bod pobl yn ymosod ar y cwmni tacsis penodol hwn ar sail cymhellion gwleidyddol fel, mae'n sicr, mae'n ymddangos mai dyma beth sy'n wir mewn rhannau mawr o Lundain ac mewn un blaid benodol, a fyddech chi'n cytuno nad yw'n ddefnyddiol pan fydd pobl yn ymosod ar gwmni oherwydd rhesymau gwleidyddol yn unig yn hytrach na chwilio am realiti gwirioneddol y sefyllfa.

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR PARRY
Dw i ddim yn meddwl fy mod i wedi clywed eich cwestiwn i gyd ond rydyn ni'n seiliedig ar dystiolaeth.

CWESTIWN - Y CYNGHORYDD SIR PARKHILL
A yw'r cyngor yn cytuno gyda'r penderfyniad gan un arall o brifddinasoedd y DU i wahardd Uber, sef cwmni sydd wedi aflonyddu monopolïau ac wedi gostwng prisiau ar gyfer defnyddwyr drwy arloesedd, ac a oes ganddyn nhw gynlluniau i ddilyn eu hesiampl?

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR JACKIE PARRY
Nid yw'r Cyngor wedi cael mynediad at yr holl wybodaeth sydd ar gael i Drafnidiaeth Llundain a'r rhesymau y tu ôl i'r penderfyniad sef peidio ag adnewyddu'r drwydded ac yn hynny o beth, byddai'n amhriodol i mi wneud sylw.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR PARKHILL
Rwy'n meddwl ei fod yn werth gwneud sylwadau arno, dyma 44,000 o swyddi pobl a theuluoedd yn Llundain nad ydynt wedi cymryd y safbwynt hwn ac mewn gwirionedd mae'n enghraifft o sut nad yw'r Blaid Lafur yn cefnogi'r werin a miliynau o bobl yn y cwmni.  Mewn gwirionedd mae fy nghwestiwn yn perthyn i bryderon trigolion yng Nghaerdydd felly hoffwn i wybod mewn perthynas ag yn ôl yn 2015 pan fu llu o gwynion ynglŷn â'r Tacsis Du a yrrodd y galw am Uber yn y Ddinas hon, faint o gwynion a godwyd ers hynny, a gafodd Uber ei gymharu â'r tro blaenorol.

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR JACKIE PARRY
Byddaf yn cael ymateb ysgrifenedig i chi.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR EBRAHIM
Mae'n rhaid i ddeiliaid trwyddedi yng Nghaerdydd, boed yn Hacni neu Logi Preifat, fynd trwy nifer o geisiadau a phrofion ar wybodaeth a datgeliadau, ayyb. ayyb.  Bu pwysau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf lle maen nhw'n wynebu llawer o yrwyr yn dod i mewn o siroedd cyfagos, does neb yn gwybod nifer y profion neu'r taliadau maen nhw wedi talu mewn dinasoedd cyfagos, beth rydym ni'n ei wneud fel Cyngor i atal y pwysau hyn rhag dod i mewn i Gaerdydd, gan roi pwysau ar ddeiliaid trwyddedau sydd wedi talu cymaint o arian i gael eu trwyddedau ac nawr maen nhw'n cystadlu gyda phobl nad ydynt wedi talu unrhyw ffioedd.

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR JACKIE PARRY

Byddwn ni'n trafod y materion hyn drwy'r amser, yn ogystal â'r gwahanol bryderon. Rwy'n gwybod yn union am beth rydych chi'n sôn ond os caiff tacsi ei logi o'r tu allan i Gaerdydd neu os cawn ni wybod ei fod e ac na allwn ni brofi fel arall, beth allwn ni ei wneud?

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR OWEN JONES
A fydd yr Aelod Cabinet yn gwneud datganiad ar y penderfyniad i werthu un o fannau agored prin Adamsdown yn Lawnt Bowlio Howard Gardens i ddatblygwr llety myfyrwyr?

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR GOODWAY
Bydd y Cynghorydd Sir yn deall bod y Weinyddiaeth yn cyhoeddi ei Chynllun Rheoli Asedau yn flynyddol sydd, ag eithrio caffaeliadau a gwarediadau oportiwnyddol, yn rhestru manylion yr eiddo mae'n bwriadau ei gaffael neu waredu yn y flwyddyn i ddod. Cafodd gwaredu safle Howard Gardens ei gynllunio ers mis Hydref 2015 pan benderfynodd y Cabinet ar y pryd i gynnwys y safle i'w waredu yn y Cynllun Rheoli Asedau a gyhoeddwyd.

Bu'r Weinyddiaeth newydd yn cymryd rhan ond i'r graddau ei bod wedi cydsynio i'r gwarediad i'w ddefnyddio fel llety myfyrwyr, gan ystyried y bydd hyn yn ategu'r datblygiad sy'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd ar safle blaenorol Coleg Howard Gardens. Trwy werthu'r lawnt bowlio blaenorol, bydd y Cyngor yn trosoli buddsoddiad sylweddol i mewn i ardal parc Howard Gardens gyfagos, a gaiff ei chadw a'i gwella fel man agored cyhoeddus. Caiff caffi newydd ei ddarparu fel rhan o'r datblygiad a fydd yn edrych allan dros y parc a bydd ar agor yn llwyr i'r cyhoedd.

Bydd y Cynghorydd yn deall bod y galw am lety myfyrwyr yn yr ardal hon mor uchel, mae'n bosibl y gallai roi un o'r derbyniadau tir uchaf o ran gwerth a gyflawnwyd erioed yng Nghymru. Os bydd hynny'n wir, byddaf yn fodlon gweithio gydag ef i drafod sut all y gymuned leol elwa orau ar y datblygiad hwn/

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR OWEN JONES
Does dim Ward yng Nghymru â llai o fannau gwyrdd nag sydd gan Adamsdown, ac eto dywedwch chi y cymerwyd y penderfyniad ychydig o flynyddoedd yn ôl i werthu un o'r mannau gwyrdd prin sydd gyda ni mewn gwirionedd. Fel y sonioch chi, mae'n ymddangos bod Adamsdown ar uwchganolbwynt y datblygiad newydd i fyfyrwyr ac mae dros 2000 o fflatiau yn cael eu hadeiladu neu eu cynllunio; mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn cymryd lle swyddfeydd neu adeiladau hŷn ond mae'r cynnig diweddaraf hwn i'w adeiladu ar barcdir a fu yno ers diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Wedi siarad â'r trigolion, ac fel mae'r ddeiseb a gyflwynais i yn gynharach yn dangos, rwy'n gwybod bod ychydig iawn o awydd am ddatblygiad arall yn y yr ardal hon sydd eisoes yn adeiledig. Rwy'n ymwybodol bod arian A06 y gellid ei ddefnyddio i adfer tir y Lawnt Bowlio i fan y gall y gymuned ei fwynhau, byddwn felly yn gofyn i'r Aelod Cabinet a'r Cyngor i edrych eto ar werthiant y Lawnt Bowlio hwn ac ystyried buddsoddi ynddo fel man agored yn lle hynny.

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR GOODWAY
Rwy'n deall teimladau'r Cynghorydd ac rwy'n gwerthfawrogi'r ffordd y mae'n teimlo, ond mae ofn gen i fy mod mewn sefyllfa lle mae'r Cyngor wedi datgan yn flaenorol nad yw'n fan agored cyhoeddus bellach, datganwyd nad oes ei angen gan yr adran

parciau a chymerwyd y penderfyniad yn agos i'r Lawnt Bowlio ac mae'r Cyngor wedi penderfynu o'r blaen i'w waredu a dyma beth rydym wrthi'n ei wneud ar hyn o bryd. Ers i'r Lawnt Bowlio stopio bod yn Lawnt Bowlio, mae wedi'i ffensio er mwyn pwysleisio'r ffaith nad yw'r Cyngor bellach yn ystyried ei fod yn fan agored cyhoeddus. Pe bai yn y ward byddwn yn gwneud yn gymwys yr un peth â chi, ond rwy'n ofni ein bod lle rydyn ni ac rwy'n meddwl bod rhaid i ni fwrw ymlaen. Rwy'n deall eich pwynt, byddwch eisiau gweld buddsoddiad buddiol o ganlyniad yn eich ward a byddaf yn gweithio gyda chi er mwyn gweld beth mae'n bosibl ei gyflawni yn y cyfeiriad hwnnw.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD SIR HOWELLS
Cyflwynais y cwestiwn hwn ychydig o wythnosau yn ôl ond rwyf heb gael ateb eto felly efallai gallwch ei ateb i mi; a allwch ddweud wrtho i gyfanswm y Derbyniad Cyfalaf y disgwylir ei dderbyn gan y safle hwn ac allwch chi roi gwybod i mi pa Projectau Cyfalaf sydd wedi'u clustnodi i elwa ar yr enillion hyn.

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR GOODWAY
Cefais sioc, Arglwydd Faer, mae'r Cynghorydd yn gyn Aelod Cabinet gyda chyfrifoldeb dros Gyllid, wrth gwrs na allaf ddweud yn y Cyngor agored beth fydd y Derbyniad Cyfalaf, mae'r mater yn cael i negodi o hyd ac mae'n fasnachol gyfrinachol.

CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR OWEN JONES
Sut mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r adael â'r cynnydd o ran defnydd gweladwy cyffuriau a delio cyffuriau ar strydoedd Caerdydd?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THORNE
Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Heddlu De Cymru er mwyn mynd i'r afael â defnydd a delio cyffuriau yn y ddinas ac rwyf wedi cynnal cyfarfodydd lefel uchel ar y mater hwn gyda'r Comisiynydd Heddlu A Throseddu ac uwch swyddogion yr heddlu. Hefyd bydd cyfarfod amlasiantaeth arall yn cael ei gynnal y mis nesaf i sicrhau ymateb partneriaeth effeithiol i broblemau cyffuriau yng nghanol y ddinas a'r cymunedau lleol.

Fel rhan o'r ymagwedd hon, mae'n bwysig ein bod yn gweithio gyda phartneriaid a chymunedau er mwyn casglu deallusrwydd a helpu sicrhau bod cymunedau'n teimlo'n hyderus i adrodd am y gweithgareddau hyn.

I'r diben hwn, rwy'n falch iawn y bydd Pwyllgorau Craffu Plant a Phobl Ifanc a Gwasanaethau Oedolion hefyd yn casglu tystiolaeth a gwybodaeth fel rhan o ymchwiliad ar y cyd i faterion sy'n perthyn yn benodol i bobl ifanc a chymryd cyffuriau er mwyn helpu i arwain ymateb y Cyngor a'i bartneriaid i faterion sy'n perthyn i gyffuriau o fewn ein cymunedau.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR OWEN JONES
Mae erthyglau diweddar yn y Western Mail wedi amlygu problem gynyddol Sbeis yn ein Dinas, fodd bynnag rwy'n gwybod trwy siarad â'r trigolion ac ar ôl gweld drosof i fy hun bod hyn yn broblem nad yw'n gyfyngedig i un cyffur. Mae nodwyddau a theflir i ffwrdd yn gyffredin bellach mewn nifer o wardiau, gan gynnwys fy ward fy hun ac mae delio cyffuriau digywilydd yn digwydd yng ngolau dydd. Mae rhai o'r bobl hyn

efallai yn droseddwyr ond mae llawer yn drigolion Caerdydd sy'n agored i niwed ac sydd angen ein cymorth. Rwy'n falch iawn o glywed y cydnabyddir y broblem gynyddol hon gan y Cyngor a'r Heddlu ond hefyd rwy'n gobeithio'r Bwrdd Iechyd Lleol, y maent i gyd yn cael anawsterau wedi toriadau. A all y Cyngor edrych ar ffyrdd y gallwn gydweithio ymhellach gyda'r tri chorff hwn fel y gallwn cronni ein hadnoddau gostyngol ac dod o hyd i'r canlyniadau gorau i fynd i'r afael â'r problemau cynyddol hyn?

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THORNE

Yn union, Gynghorwr ac rwy'n rhannu eich pryderon. Mae canfasio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wir wedi codi fy mhryderon oherwydd ble bynnag yr ewch chi, y broblem fwyaf yw'r cyffuriau sy'n cael eu delio'n agored. Erbyn hyn mae'r trigolion wedi rhoi'r gorau i ffonio'r Heddlu ac rwy'n credu mai fy mhryder yw ei fod yn ymddangos fel ymddygiad derbyniol a dw i ddim yn gweld ei fod yn dderbyniol i'n cymuned – mae'n wael bod ein plant ifanc yn cael eu hannog i ddelio a chymryd cyffuriau. Ysgrifennais at yr adran craffu er mwyn gofyn iddyn nhw wneud y darn hwn o waith oherwydd ei fod yn bwysig ein bod yn edrych ar y darlun cyfan ac yn amlwg rydyn ni'n gweithio gyda phob partner gan gynnwys yr Uned Cyffuriau ac Alcohol a fu'n rhan o'r sgyrsiau hyn.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD SIR HOWELLS

Roedd hyn yn fater a gododd yn ein cyfarfod PACT yn ddiweddar lle adroddodd preswylwyr am ddigwyddiadau a welwyd ar Stryd Theodora lle roedd pobl yn delio cyffuriau yn agored allan o gar yng nghanol y stryd yng ngolau dydd. Rydym wedi adrodd yn ystod yr wythnosau diwethaf am ddelio cyffuriau a thaclau cyffuriau mewn mynwentydd a pharciau ac rwy'n siŵr bod llawer o bobl eraill mewn wardiau eraill ar draws y Ddinas yn cael profiadau tebyg. Roedd y neges a roddodd yr Heddlu yn y PACT yn llygad ei le, os byddwch yn gweld unrhyw ddigwyddiadau, adroddwch amdanyn nhw i'r Heddlu trwy 101. Beth yw'r ffordd orau o gael y wybodaeth allan yn ehangach oherwydd rwy'n siŵr bod pobl allan yno sy'n gweld y pethau hyn ond heb feddwl am eu riportio.

ATEB – Y CYNGHORYDD SIR THORNE

Rwy'n credu o ran y broblem o bobl yn riportio, mae ychydig o faterion; un pan fyddan nhw'n adrodd amdano maen nhw'n disgwyl i'r heddlu gyrraedd ar unwaith a phan na fyddan nhw'n dod, dydyn nhw ddim yn deall, trwy ei adrodd i 101 mae'n fater o gasglu tystiolaeth a dyna lle mae'r heddlu yn rhoi eu hadnoddau. Mae'n dibynnu ar nifer yr adroddiadau maen nhw'n eu derbyn a ble maen nhw'n rhoi eu hadnoddau. Mae wir angen i ni annog trigolion i wneud hynny, y mater arall yw y bu problem gyda'r llinell adrodd 101 pan bu'n rhaid i bobl aros am hyd at 5 munud; os ydych chi gartref yn mwynhau eich bywyd teuluol ac yn gwylio'r teledu dydych chi ddim eisiau eistedd yn aros ar y ffôn am 15 munud. Siaredais i am hyn gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu; maen nhw'n edrych ar niferoedd y bobl ar y llinell 101 a hefyd maen nhw'n gobeithio cyflwyno'n raddol yn y mis neu ddau nesaf ffordd i bobl e-bostion gyda'r materion hyn a ddylai ei wneud yn haws o lawer i bobl adrodd a byddwn yn ein hannog i gyd fel Cynghorwyr, ar y cyfryngau cymdeithasol neu ble bynnag, i annog aelodau'r cyhoedd i adrodd oherwydd ei fod yn hollol annerbyniol. Hoffwn i ddweud, es i Butetown un bore dydd Llun i gwrdd â'r Cynghorydd Ebrahim, cwrddon ni am 9 o'r gloch yn y bore gyda 3 swyddog ac roedd deliwr yn gweiddi

arnon ni oherwydd ein bod yn y ffordd a doedd e ddim yn gallu delio, roedd hynny am 9 o’r gloch ar fore dydd Llun, mae’n hollol annerbyniol.

<u>CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR BOWEN-THOMSON</u>
Mae Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2016/17 yn amlygu buddion gweithio mewn partneriaeth. Sut mae’r Cyngor yn bwriadu parhau i wella adnabod, ymyrryd ac atal yn gynnar er mwyn sicrhau diogelwch plant yng Nghaerdydd?

<u>ATEB – Y CYNGHORYDDD SIR HINCHEY</u>
Mae Gwasanaethau Plant yn arwain y Grŵp Cymorth Cynnar, gan gynnwys partneriaid statudol a thrydydd parti, fel rhan o’n trefniadau partneriaeth yng Nghaerdydd.

Datblygodd y grŵp hwn y Strategaeth Cymorth Cynnar a bellach mae’n goruchwylio ei rhoi ar waith. Y flaenoriaeth gyntaf yw datblygu trefniadau mwy effeithiol ar gyfer cymorth cynnar. Rwy’n siŵr bod y cwestiwn cynharach wedi gofyn am yr Adroddiad Gwasanaethau Cymdeithasol, gwellodd y tudalennau yr hyn rydyn ni’n ceisio ei wneud gyda phartneriaid ac rydych chi wedi clywed hynny gan y ddau ohonon ni heddiw.

<u>CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR BOWEN THOMSON</u>
A allwch chi nodi rhai meysydd gweithgareddau a chynnydd o ran y math hwn o weithio mewn partneriaieth?

<u>ATEB – Y CYNGHORYDD SIR HINCHEY</u>
Mae sefydlu drws blaen i gymorth cynnar yn un ohonyn nhw, partneriaeth gyda Tros Gynnal Plant, yn amlwg roedd rhieni yn cymryd rhan mewn dewis yr enw Support for Cardiff, sydd am fynd yn fyw fis Tachwedd, rwy’n siŵr y byddwch yn croesawu hynny, ail-gomisiynu Teuluoedd Yn Gyntaf i helpu i roi cymorth i deuluoedd yng Nghaerdydd a threfniadau gydag ysgolion, wedi’u cefnogi gan ddefnydd strategol y cyllid er mwyn darparu ystod o gymorth rhianta a chymorth i’r ieuenctid a gwasanaethau sy’n canolbwyntio ar anabledd ac yn cynnwys partneriaid. Mae gen i restr o bethau eraill, hoffwn i barhau ond mae hyn i gyd yn golygu mewn gwirionedd, ym mhob lleoliad lle mae plant yn tyfu i fyny, ym mhob cymuned, hyb, ysgolion, cylch meithrin a lleoliad chwaraeon diwylliannol yn lleol, rydyn ni’n gweithredu mewn partneriaeth er mwyn helpu plant y ffynnu a lle bo‘n bosibl i ddileu rhwystrau ar y camau cynharach, rwy’n siŵr y byddwch yn gwylio hyn yn frwd wrth iddo fynd yn ei flaen.

<u>CWESTIWN – Y CYNGHORYDD SIR LISTER</u>
Fel rydych yn gwybod, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn gynharach yr wythnos hon bod £1.4 miliwn yn cael ei fuddsoddi i ysgolion ar draws rhannau o Gymru i helpu i gryfhau cymorth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) i’r staff a’r disgyblion. A wnewch chi ymuno â mi wrth gydnabod yr effaith y gall ymyrraeth gynnar gydag anawsterau iechyd meddwl, megis gorbryder, iselder ysbryd a hunan-niweidio ei gael?

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR MERRY
Rwy'n croesawu cyhoeddiad Llywodraeth Cymru am gymorth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed wedi'u gryfhau i staff a disgyblion mewn rhannau o Gymru yn fawr iawn.

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr effaith y mae ymyrraeth gynnar yn ei chael ar wella effeithiau anawsterau iechyd meddwl, gan gynnwys gorbryder, iselder ysbryd a hunan-niweidio.

Fel mam i ferch yn ei harddegau, ces i sioc yn ddiweddar o ddarllen astudiaeth a ddangosodd, dros y deng mlynedd diwethaf, gynnydd o 68% o ran derbyniadau i'r ysbyty oherwydd hunan-niweidio ymhlith merched 17 blwydd oed neu'n iau. Dyblodd iselder, a bu digwyddiadau o hunan-wenwyno, anfodlonrwydd ar y corff, mae'r pwysau ar ein pobl ifanc yn fawr a dim ond partneriaeth ac ymyrraeth gynnar all help i leihau'r materion maen nhw'n eu hwynebu.

CWESTIWN ATEGOL – CYNGHORYDD SIR LISTER
Mae Gweithredu Dros Blant ar fin lansio eu 'Blues Programme', sef ymagwedd therapi ymddygiad gwybyddus at weithio gyda phobl ifanc rhwng 15 a 18 oed sy'n dangos arwyddion cynnar o orbryder ac iselder. Cafodd Caerdydd ei dewis fel un o'r ardaloedd i gynnal y project arloesol hwn, allwch chi rhagweld y bydd ysgolion Caerdydd yn mynd ati i gyfranogi yn y project?

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR MERRY
Byddwn yn synnu'n fawr os na fydd Ysgolion Caerdydd yn awyddus i wirfoddoli i fod yn rhan o'r cynllun.

CWESTIWN ATODOL – CYNGHORYDD SIR HUDSON
Tybed a oes gan y Cynghorydd Merry unrhyw ystadegau ar ein plant ifanc gan ein bod yn rhoi baich ychwanegol iddyn nhw, sef gostwng yr oedran pleidleisio fel y byddan nhw'n pleidleisio'n gynharach a thybed a fyddai hyn yn cael effaith ar ein plant ifanc trwy roi straen ychwanegol iddyn nhw.

ATEB - Y CYNGHORYDD SIR MERRY
Mae'n rhaid i mi fod yn onest, rwyf heb weld unrhyw awgrym bod gostwng yr oedran pleidleisio yn cyfrannu at straen y bobl ifanc mewn ysgolion. Byddwn yn awgrymu bod pwysau'r cyfryngau cymdeithasol, ein papurau newydd ar brydau, a chaledi ariannol mewn teuluoedd yn fwy tebygol o fod yn achosi'r straen y mae'n ymddangos bod ein plant yn ei ddioddef.

63 : MATERION BRYS

Ni chafodd unrhyw gais am fusnes brys ei dderbyn.

64 : PENODI LLYWODRAETHWYR YSGOL YR AWDURDOD LLEOL

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo argymhellion Panel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol 19 Medi 2017.

PENDERFYNWYD – Bod

1. y dylid cymeradwyo’r penodiadau canlynol i swyddi gwag presennol
2. -

| Ysgol | Ward | Dechrau’r Rôl | Ceisiadau a Gymeradwywyd |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Allensbank | Gabalfa | 18/05/2017 | Richard Chappelle |
| Ysgol Gynradd Baden Powell | Sblot | 17/09/2016 | Mike Smith |
| Ysgol Gynradd Llwynbedw | Y Mynydd Bychan | 14/07/2017 | Mike Ash-Edwards |
| Ysgol Gynradd Danescourt | Llandaf | 01/09/2016 | Leon Goddard |
| Ysgol Gynradd Glan yr Afon | Llanrhymni | 11/07/2017 | Lesley Noakes |
| Ysgol Gynradd Glyncoed | Pentwyn | 06/06/2017 | Jane Francis |
| Ysgol Gynradd Herbert Thompson | Trelái | 20/01/2017 | Derick Mbakwe |
| Ysgol Gynradd Hywel Dda | Trelái | 31/03/2017 | Andy Jones |
| Ysgol Gynradd Lakeside | Cyncoed | 04/07/2017 | Nicholas Barber |
| Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Llandaf | Llandaf | 30/05/2017 | Philip Barratt |
| Ysgol Gynradd Pentyrch | Pentyrch | 05/05/2017 | Cllr Gavin Hill- John |
| Ysgol Gynradd Rhiwbeina | Rhiwbeina | 18/10/2016 | Tom Gallard |
| Ysgol Gynradd Severn | Glan-yr-afon | 24/03/2017 | Hannah Sterritt |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Ffagan | Trelái | 15/07/2017 | Claire Hill |
| Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Illtyd | Tredelerch | 01/09/2016 | Justine Pianowski |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Forwyn Fair | Butetown | 22/06/2017 | Peter Tully |
| Ysgol The Hollies | Pentwyn | 26/09/2016 | Claire Hardy |
| Ysgol Gynradd Trelái | Caerau | 28/06/2017 | Les Maxim |
| Ysgol Uwchradd Willows | Sblot | 15/09/2016 | Camilla Lovelace |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf | Ystum Taf | 04/07/2017 | Cllr Rhys Taylor |
| Ysgol Pwll Coch | Treganna | 17/08/2017 | Liam Sullivan |

3. y dylid cymeradwyo’r penodiadau canlynol i swyddi gwag Awdurdod Lleol yn y dyfodol

| Ysgol | Ward | Dechrau’r Rôl | Ceisiadau a gafwyd |
|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd | Trelái | 23/10/2017<br>23/10/2017<br>23/10/2017<br>23/10/2017<br>23/10/2017 | Dewi Jones<br>Karen Dell’Armi<br>Zenny Saunders<br>Janice Lane<br>Cllr Russell Goodway |
| Ysgol Uwchradd Cathays | Gabalfa | 22/11/2017 | Sam Knight |
| Canolfan Plant Trelái a Chaerau | Trelái | 15/12/2017 | Cllr Sue Goddard |
| Ysgol Gynradd Lakeside | Cyncoed | 25/10/2017 | John Wilkinson |
| Ysgol Gynradd Llanedern | Pentwyn | 25/10/2017 | Christopher Ribton |
| Ysgol Uwchradd Llanisien | Llanisien | 20/11/2017<br>20/11/2017 | John Caddick<br>Maurice Pendlebury |
| Ysgol Gynradd Meadowlane | Trowbridge | 31/01/2018 | Mark Wilmore |
| Ysgol Gynradd Radur | Treganna | 20/12/2017 | Roberta Meredith |
| Ysgol Uwchradd Gyfun Radur | Radur A Phentre-Poeth | 19/01/2018 | Caroline Taylor |
| Ysgol Gynradd Rhiwbeina | Rhiwbeina | 22/11/2017 | Alan Wilson |
| Ysgol Gynradd Tredelerch | Tredelerch | 25/10/2017 | Jonathan Williams |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg | Llanrhymni | 02/11/2017 | Debra Brown |
| Ysgol Uwchradd Willows | Sblot | 25/10/2017<br>31/01/2018 | Su Wade<br>Y Cyng. Ed Stubbs |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Coed-y-Gof | Y Tyllgoed | 31/01/2018 | Angharad Davies |
| Ysgol Uwchradd Cathays | Gabalfa | 22/11/2017 | Sam Knight |
| Canolfan Plant Trelái a Chaerau | Trelái | 15/12/2017 | Cllr Sue Goddard |
| Ysgol Gynradd Lakeside | Cyncoed | 25/10/2017 | John Wilkinson |
| Ysgol Gynradd Llanedern | Pentwyn | 25/10/2017 | Christopher Ribton |
| Ysgol Uwchradd Llanisien | Llanisien | 20/11/2017<br>20/11/2017 | John Caddick<br>Maurice Pendlebury |

65 : AELODAETH Y PWYLLGOR

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo newidiadau i Aelodaeth Pwyllgor.

PENDERFYNWYD – Bod

1. Aelodaeth y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol yn cael ei chadarnhau fel a ganlyn:
   Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth, Sgiliau - y Cynghorydd Sarah Merry;
   Y Cynghorydd Hinchey (Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd);
   Y Cynghorydd Weaver fel Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad (*gyda chyfrifoldeb dros Ddiogelu)*

   Y Cynghorwyr Tim Davies, Shaun Jenkins, Bablin Molik, Susan Lent, Ashley Lister a David Walker.

2. Penodi'r Cynghorydd Merry yn Gadeirydd y Pwyllgor Corfforaethol dros Ymgynghori ar Rianta am y flwyddyn fwrdeistrefol;

3. cymeradwyo'r penodiadau canlynol i swyddi gwag ar y Pwyllgor yn unol â dymuniadau Grŵp y Blaid:

| **Pwyllgor** | **Enwebiad** |
|---|---|
| Panel Llywodraethwyr Awdurdod Lleol | Y Cynghorydd Sean Driscoll |
| Y Grŵp Ymgynghorol ar Iechyd a Diogelwch | Y Cynghorydd Chris Weaver ***(Cadeirydd)*** |
| Cydbwyllgor Archifau Morgannwg | Y Cynghorydd Adrian Robson |

66 : PENDERFYNIAD BRYS: YMYRRAETH YN YSGOL GYNRADD TRELÁI

Derbyniwyd yr adroddiad gan y Cyngor Llawn er gwybodaeth yn unig mewn perthynas â phenderfyniad brys a wnaed gan y Cyfarwyddwr Addysg wrth ymgynghori â'r Aelod Cabinet, Aelodau'r Ward Lleol a Chadeirydd yr Adran Craffu i benodi Llywodraethwr Ychwanegol a enwebwyd fel Cadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Trelái o 7 Awst 2017.

*(Daeth y cyfarfod i ben am 21.45pm)*

67 : CWESTIYNAU YSGRIFENEDIG

Derbyniwyd y Cwestiynau Ysgrifenedig hyn yn unol â Gweithdrefn 17(f) y Cyngor a'u cylchredeg i bob Aelod am 12.00 midday ar 28 Medi 2017.

CADEIRYDD PWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD
(Y CYNGHORYDD JACKIE PARRY)

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR DE’ATH

Mae grŵp trawsbleidiol o ASau yn lobïo Trafnidiaeth Llundain er mwyn gwahardd y grŵp Uber o brifddinas y DU. Mae’r ASau yn honni bod Uber yn peryglu’r cyhoedd, gan ddweud bod gyrwyr y cwmni’n cyflawni ymosodiad rhywiol bob 11 diwrnod. Hefyd mae’r Heddlu Metropolitan wedi cyhuddo'r cwmni tacsis o beidio ag adrodd am bob ymosodiad rhywiol honedig gan yrwyr ar deithwyr. Hefyd mae’r ASau yn dadlau bod yn cwmni’n cam-drin ei weithwyr, gan eu talu cyn lleied â £2 yr awr ac maent yn cyhuddo Uber o beidio âthalu TAW ar ei deithiau, a honnir trwy hynny eu bod yn dianc rhag talu £40 miliwn mewn trethi.

Mewn llythyr ar ran y grŵp o ASau a anfonwyd i bennaeth Trafnidiaeth Llundain yn galw am beidio ymestyn trwydded gweithredu Uber, dywedodd AS Gogledd Ilford, Wes Streeting:

*“Mae’n rhaid i ddiogelwch pobl Llundain fod ar flaen y gad o ran penderfyniadau a gymerwyd ynglŷn â'r diwydiant llogi preifat yn ein prifddinas. Nid ydym yn credu bod Uber wedi dangos ei fod yn weithredwyr addas a phriodol.”*

Yng ngoleuni’r datblygiadau hyn, beth yw safbwynt Cyngor Caerdydd ar dymunoldeb Uber yn gweithredu ym mhrifddinas Cymru ac a yw’r awdurdod yn ystyried lobïo i gael trwydded gweithredu Uber wedi'i hatal yma?

Ymateb

Dosbarthwyd trwydded gweithredu llogi preifat i Uber Britannia Ltd gan y Cyngor ym mis Medi 2016 ac mae’r drwydded bresennol yn parhau mewn grym am uchafswm o bum mlynedd. Wrth ddosbarthu unrhyw drwydded gweithredu, mae’n rhaid i’r Cyngor fod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn addas a phriodol i fod yn ddeiliad ar y drwydded.

Fel rhan o amodau’r drwydded, mae’n rhaid i’r gweithredwr sicrhau ei fod yn defnyddio gyrwyr a cherbydau trwyddedig yr archwiliwyd eu cefndir yn briodol ac mae’r Cyngor yn cadw’r pŵer i atal, dirymu neu wrthod Trwydded y Gweithredwr pan fydd yn dod i ben os bydd sail ddigonol am wneud hynny.

Gallaf gadarnhau nad yw’r Cyngor yn ystyried diddymu trwydded y gweithredwr a roddwyd i Uber y llynedd.

Mae’n rhaid i unrhyw benderfyniad gan y Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd i ddiddymu trwydded gweithredwr neu yrrwr fod yn seiliedig ar dystiolaeth a daw ynghyd â hawl apelio i Lys yr Ynadon lle y câi sail y penderfyniad ei phrofi.

Rydym yn gweithio’n agos gyda’r Heddlu wrth ymchwilio unrhyw honiadau o ymosodiad yr ymgymerwyd â nhw gan yrwyr a drwyddedir gan yr Awdurdod, ni waeth am a ydynt yn gweithredu fel llogi cerbyd llogi preifat neu Gerbyd Hacni, a bydd yn cymryd camau gweithredu yn syth i atal neu ddirymu trwyddedau i

amddiffyn y cyhoedd pan fydd yn briodol.

Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth bod gyrwyr Uber sy’n gweithredu yn y ddinas yn peri unrhyw risg penodol i’r cyhoedd a bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn parhau i ymateb i unrhyw gwynion a dderbynnir a gweithio gyda'r Heddlu ac Awdurdodau Trwyddedi eraill i ymchwilio i honiadau o gamymddwyn.

Mewn perthynas â’r honiadau parthed osgoi trethi a’r trefniadau cytundebol rhwng Uber a’r gyrwyr maent yn eu defnyddio, mae’r rhain yn faterion y tu allan i gwmpas yr Awdurdod Trwyddedi i'w rheoleiddio.

PLANT A THEULUOEDD
(Y CYNGHORYDD GRAHAM HINCHEY)

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR DE’ATH

Mae Teuluoedd Yn Gyntaf wedi buddsoddi llawer iawn o arian wrth hyfforddi gweithlu ar raglenni rhianta; mae’r mwyafrif ohonynt yn cael eu cyflogi gan y trydydd sector. A gaiff y gronfa sgiliau hon ei cholli o dan gynlluniau comisiynu newydd y Cyngor, oherwydd ei fod yn annhebygol y bydd gwasanaethau’n ddigon tebyg fel yu byddai TUPE yn briodol?

Ymateb

Disgwylir y bydd llawer o’r staff a gyflogir mewn gwasanaethau rhianta a ariennir gan Teuluoedd Yn Gyntaf yn ddarostyngedig i TUPE o dan y trefniadau newydd ar gyfer cyflwyno rhianta, wedi’i alinio i’r gwasanaeth Dechrau’n Deg. Felly rhagwelir y bydd llawer o'r staff a hyfforddwyd o’r blaen trwy gyllid Teuluoedd Yn Gyntaf yn parhau i gyflwyno gwasanaethau rhianta fel rhan o’r Rhaglen Teuluoedd Yn Gyntaf newydd.

Bu Teuluoedd yn Gyntaf â rôl i’w chwarae erioed wrth ddatblygu’r sector plant a theuluoedd. Cafodd hyfforddiant ei agor allan i sefydliadau partner eraill a gwasanaethau perthynol er mwyn hyrwyddo sail arfer a rennir ar gyfer gwaith gyda theuluoedd. Yn hyn o beth, gobeithir y bydd y cyflogeion hynny nad ydynt yn dymuno TUPE i’r Awdurdod Lleol, neu nad yw TUPE yn berthnasol iddynt, yn cael cyfleoedd i barhau i ddefnyddio eu sgiliau a’u gwybodaeth mewn sefydliadau neu brojectau eraill sy’n darparu gwasanaethau rhianta a gwasanaethau cymorth i deuluoedd yng Nghaerdydd, fel y bydd y sector yn parhau i elwa ar eu sgiliau a’u harbenigrwydd.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR DE’ATH

Mae ymchwil yn dangos bod teuluoedd llawer yn fwy tebygol o ymgysylltu â darparwyr y trydydd sector na chyda darparwyr statudol. Yn aml mae nifer o’n darparwyr trydydd sector wedi rhagori ar eu targedau ac maent wedi datblygu system graddio RAG, sy’n sicrhau y bydd pobl yn cael y gwasanaeth addas ar gyfer eu hanghenion. Bellach gwelir mynd ar gwrs rhianta yn fwy fel rhagweithiol a normal, sy’n cefnogi atal a gwaethygu angen. A gaiff hyn ei golli os caiff y fath grwpiau eu darparu gan wasanaethau statudol?

Ymateb

Nid oes dwywaith am werth darparwyr y trydydd sector, eu gallu i ymgysylltu â theuluoedd a’r cyfraniad hanfodol maent yn ei wneud i gyflawni Strategaeth Cymorth Cynnar Caerdydd a’r agenda ataliol.

Mae’r tîm Teuluoedd Yn Gyntaf canolog o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweithio gyda Darparwyr Arweiniol a'r darparwyr rhianta presennol er mwyn datblygu trefniadau gwell, megis y system graddio RAG a gafodd ei chyflwyno yn dilyn adolygu rhianta. Fodd bynnag, roedd yr adborth a dderbyniwyd yn ystod ymgynghori â rhanddeiliaid (gyda theuluoedd yn ogystal â darparwyr yn cyfeirio o hyd at ddiffyg eglurder ynglŷn â'r gwasanaeth oherwydd nifer y gwasanaethau a'r darparwyr gwahanol.

Y trefniadau am gyflwyno gwasanaethau rhianta o dan y rhaglen Teuluoedd Yn Gyntaf newydd yw ei alinio â Dechrau'n Deg o fewn y gyfarwyddiaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Mae gan Dechrau’n Deg hanes rhagorol o ddarparu gwasanaethau rhianta ar draws y ddinas ac yn ymgysylltu’n dda â rhieni. Gall y rhaglen roi tystiolaeth o galyniadau cadarnhaol iawn a pharhaus ar gyfer y plant sydd wedi elwa ar y rhaglen iddi gael ei chyflwyno 10 yn ôl

Mae’r cynllun i leoli gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf gyda Dechrau’n Deg yn rhoi cyfle i fynd i’r afael â rhai o’r anghydraddoldebau y mae proses dalgylch Dechrau’n Deg wedi’u creu, wrth adeiladu ar seilwaith cryf a llwyddiannus er mwyn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy’n cyflawni’r deilliannau a ddymunir.

Mae’r tîm Teuluoedd yn gyntaf yn hyderus na fydd y trefniadau newydd yn peryglu gallu rhieni i ymgysylltu’n llwyddiannus â gwasanaethau ataliol. Yn wir, disgwylir y bydd y trefniadau newydd yn adeiladu ar lwyddiannau gallu Dechrau’n Deg i ymgysylltu â rhieni gydag ystod o lefelau angen. Yn ogystal â hyn, y bwriad wrth leoli gwasanaethau rhianta Teuluoedd yn gyntaf gydag un sefydliad yn hytrach nag ag ystod o sefydliadau gwahanol yw i gryfhau hygyrchedd gwasanaethau trwy symleiddio’r llwybrau y mae rhieni yn gallu cael mynediad atynt trwyddynt.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR DE’ATH

Ar hyn o bryd mae Teuluoedd yn gyntaf yn ariannu trwy grant am 3 blynedd ac fel darparwyr mae’n rhaid i ni dderbyn y risg o daliadau dileu swyddi os digwydd bod y cyllid yn dod i ben oherwydd na fydd cyllid Teuluoedd yn Gyntaf yn talu am ddileu swyddi. Sut bydd y Cyngor yn ymdopi gyda’r baich ychwanegol o ddileu swyddi ar gyfer y staff ychwanegol y bydd rhaid eu cyflogi pan ddeuir â gwasanaethau’n fewnol?

Ymateb

Bydd y cyllid presennol gan Lywodraeth Cymru o ran Teuluoedd yn Gyntaf, a’r

trefniadau contract presennol, yn dod i ben ar 31 Mawrth 2018. O ddechrau'r rhaglen bu'n amod o'r arweiniad ariannol ar gyfer Teuluoedd yn gyntaf na ellir defnyddio cyllid i dalu costau sy'n gysylltiedig â dileu swyddi. Gofynnwyd i ddarparwyr adeiladu strategaethau ymadael i mewn ac mae'r cyfrifoldeb dros gyflogi staff yn fater i'r darparwyr sydd o dan gontract.

Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo cynlluniau i gomisiynu rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Mae hyn yn cynnwys nifer o elfennau y mae contractau allanol ar eu cyfer o hyd, ond hefyd darparu dau wasanaeth allweddol yn fewnol: Rhianta a Chymorth Ieuenctid. Bydd rheolwyr gyda'r Gwasanaeth Addysg yn gyfrifol am y gwasanaethau newydd.

Rydym yn cydnabod bod y trefniadau newydd yn debygol o ofyn i'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb dros aelodau staff ychwanegol, a fydd yn cynnwys atebolrwydd am daliadau dileu swyddi o dan amgylchiadau penodol. Byddai rhai staff yn trosglwyddo o dan drefniadau TUPE a châi eu telerau penodi eu rheoleiddio gan ddeddfwriaeth TUPE yn y lle cyntaf. Pan fydd aelodau staff newydd yn cael eu cyflogi, byddai contractau cyflogi dros dro ac yn gysylltiedig â thelerau ariannu. Fodd bynnag, byddent yn cael hawliau cyflogaeth o hefyd pan fyddant wedi'u cyflogi ers dros ddwy flynedd, a chaiff hawliau gwahanol eu cronni, yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth.

Nodwyd y risg hon yn y papur opsiynau a ddaeth ynghyd â'r adroddiad i'r Cabinet. Fodd bynnag, caiff y risg ei lliniaru mewn nifer o ffyrdd.

Mae Gorchmynion Sefydlog yn annog darparu gwasanaethau yn fewnol lle y mae'r Cyngor yn y sefyllfa orau i wneud hyn. Mae'r Cyngor eisoes yn gyfrifol am ystod o aelodau staff sy'n darparu gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf o dan y trefniadau presennol, sy'n cynnwys cyfrifoldeb dros daliadau dileu swyddi. Bydd y trefniadau newydd yn rhoi cyfleoedd i staff Teuluoedd yn Gyntaf presennol y Cyngor, yn ogystal â chyflogeion eraill sydd â sgiliau a phrofiad perthnasol, i gael eu hadleoli i'r gwasanaethau newydd, yn hytrach na chael eu swyddi wedi'u dileu. Yn ôl profiad yn y gorffennol, mae hefyd trosiant staff ac felly, ni fyddai'r holl staff a gyflogir yn cronni'r hawl i daliadau dileu swyddi a/neu adleoli.

Ceir hefyd ystyriaethau ehangach ar gyfer y Cyngor. Yn gyffredinol, byddai budd yn nhermau'r cyllid ychwanegol sy'n dod i'r Cyngor, yn ogystal â gwella gwasanaethau i deuluoedd yng Nghaerdydd. Mae'r trefniadau newydd yn cael eu cyflwyno er mwyn rhoi llawer mwy o ffocws i ni ar adnabod a darparu cymorth i deuluoedd ar gam gynharach cyn bod sefyllfaoedd yn gwaethygu i'r pwynt lle bod angen ymyriadau haen uwch arnynt. Ymhlith pethau eraill, targed hyn yw lleihau'r galw ar wasanaethau statudol.

CWESTIWN YCHWANEGOL GAN GYNGHORYDD SIR DE'ATH

Fel canran, faint o weithwyr cymdeithasol ar hyn o bryd sydd â 10 neu fwy o achosion 'plentyn mewn angen' yn eu baich achosion?

Ymateb

Cafodd y categori “Plentyn mewn Angen” fel y’i diffinnir yn Neddf Plant 1989, ei ddisodli gan blant sydd â hawl i “Ofal a Chymorth” yn dilyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae gan 100% o wasanaethau cymdeithasol yng Ngwasanaethau Cymdeithasol blant sydd â’r hawl i “Ofal a Chymorth” yn eu baich achosion.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR NAUGHTON

A allech chi roi dadansoddiad o gyfanswm y nifer o leoedd gwag mewn gwasanaethau cymdeithasol i blant a’i ddadansoddi yn ôl tîm ac arbenigedd?

Ymateb

O 19 Medi 2017 ymlaen, mae 55 o leoedd gwag mewn Gwasanaethau Plant, a restrir isod yn ôl timau a gradd cyflog:

- Gwasanaethau Plant sy’n Derbyn Gofal
  12 x swydd Gradd 7 (oherwydd dyfarchiadau diweddar)

- Tîm Lleoli gyda Rhieni (PWP)
  1 x Swydd Gradd 9 (newydd ei chreu)
  4 x Swyddi Gradd 8 (newydd eu creu)

- Gwasanaeth PA
  5 x Swyddi Gradd 5 ( 3 newydd eu creu)
  1 x Swydd Gradd 6 (newydd ei chreu)

- Maethu
  3 x Swyddi Gradd 8 (2.5 Cyfwerth ag amser llawn)

- Gwasanaethau a Dargedir
  2 x Swyddi Gradd 10

- Plentyn mewn Angen a Derbyn ac Asesu
  11 x Swyddi Gradd 8 ( 10 newydd eu creu)
  10 x Swyddi Gradd 7
  5 x Swyddi Gradd 5 ( 3 newydd eu creu)

- Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc
  1 x Swydd Gradd 5

STRYDOEDD GLAN, AILGYLCHU A’R AMGYLCHEDD
(Y CYNGHORYDD MICHAEL MICHAEL)

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR BALE

Yn dilyn pryderon a fynegwyd am gyflwr gwael y cerflun o Aneurin Bevan ar Heol y

Frenhines, a fydd yr Aelod Cabinet yn cadarnhau pa mor aml y caiff y cerflun hwn a rhai eraill a gynhelir gan y Cyngor eu glanhau yng nghanol y ddinas?

Ymateb

Mae cerfluniau yn ffurfio rhan bwysig ac amlwg o olygfa stryd Caerdydd. Er nad oes unrhyw amserlen benodedig ar gyfer glanhau cerfluniau, mae swyddogion wedi cadarnhau y cânt eu glanhau yn ôl y gofyn.

Gan gyfeirio at gerflun Aneurin Bevan yn benodol, caiff ei lanhau bob dau fis, ond gan ei fod yn dal, mae angen offer arbenigol er mwyn galluogi swyddogion i weithio'n uchel.

## DIWYLLIANT A HAMDDEN (Y CYNGHORYDD PETER BRADBURY)

### CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR BALE

A fydd y Weinyddiaeth newydd yn cadarnhau y bydd y Cyngor yn parhau i roi ei gefnogaeth lawn i Pride Cymru wrth fidio i ddod ag Europride i Gaerdydd?

Ymateb

Fel y byddwch yn gwybod, buon ni'n trafod gyda Pride Cymru o ran eu dyhead i gynnal digwyddiad Europride yn y Brifddinas er tipyn o amser. Rydym yn edrych ymlaen at symud y trafodaethau hynny ymlaen dros y misoedd nesaf er mwyn gweld sut y gallwn eu helpu o bosibl wrth sicrhau a llwyfannu'r digwyddiad hwn.

Byddwch hefyd yn ymwybodol y cymerir y penderfyniad i gefnogi unrhyw ddigwyddiad arfaethedig achos wrth achos ac mae'n dibynnu ar yr achos busnes ar gyfer pob digwyddiad. Mae'n annhebygol, yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, y bydd y Cyngor mewn sefyllfa i ddarparu cymhorthdal ariannol uniongyrchol, ond mae'n bosibl y bydd yn gallu cynnig y math o gefnogaeth a roddwyd i ddigwyddiadau eraill, megis sicrhau bod staff y cyngor ac asedau'r cyngor ar gael i drefnydd y digwyddiad. Fodd bynnag, bydd union natur unrhyw gefnogaeth gan y Cyngor yn dibynnu ar yr achos busnes.

## ADDYSG, CYFLOGAETH A SGILIAU (Y CYNGHORYDD SARAH MERRY)

### CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR WOOD

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Addysg Kirsty Williams y câi awdurdodau lleol eu had-dalu am eu cyfraniad at Celfyddydau Ieuenctid Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2016/17 er mwyn sicrhau y gallant barhau gyda chefnogi pobl ifanc sydd â doniau cerddorol. Roedd hyn ar yr amod y byddai awdurdodau lleol yn dod i gytundeb i barhau â'r gefnogaeth yn y blynyddoedd i

ddod. A yw Cyngor Caerdydd wedi ymgysylltu hyd yn hyn â Llywodraeth Cymru, y CLILC neu â rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau y parheir â chyllid digonol?

Ymateb

Gallaf gadarnhau bod Caerdydd wedi parhau â'i cyfraniad blynyddol i Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) ar yr un lefel ag yn y blynyddoedd blaenorol, sy'n cynnwys y cyfraniad y cytunwyd arno at ddarparu Celfyddydau Ieuenctid Ceneldaethol Cymru.

Mae trafodaethau yn parhau gyda Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLIC) ac Awdurdodau Lleol Cymru eraill ynglŷn â pharhau â'r trefniant hwn.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR WOOD

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Addysg y sicrheir y bydd £10,000 ar gael i bob awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn prynu offerynnau cerddorol. Y bwriad yw sicrhau y bydd pobl ifanc sydd â'r angen mwyaf am offeryn yn cael mynediad at un. Sut mae Cyngor Caerdydd yn bwriadau defnyddio'r arian hwn?

Ymateb

Gallaf gadarnhau y bydd y Gwasanaeth Cerdd yng Nghaerdydd yn defnyddio'r grant o £10,000 o brynu offerynnau, a fydd yn galluogi mwy o ddisgyblion o gefndiroedd o dan anfantais i gael mynediad at ddysgu cerddoriaeth.

Mae prynu'r setiau o offerynnau yn galluogi ysgolion i ddarparu addysgu i ddosbarthiadau cyfan. Mae'r grant hwn hefyd yn sicrhau y gall disgyblion na fyddent yn gallu fforddio eu hofferynnau eu hunain ddysgu a chwarae, yn enwedig yn achos offerynnau chwythbren a phres. Bydd hefyd yn cyfrannu at atgyweirio a chynnal a chadw'r stoci presennol o offerynnau.

Caiff yr holl adnoddau cerddorol hyn eu targedu at y rhai na fyddent fel arall yn gallu cael offeryn.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR BERMAN

O ystyried nifer uchel y plant o rannau o ddalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd (gan gynnwys llawer sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Marlborough) sydd wedi methu sicrhau lleoedd yn Ysgol Uwchradd Caerdydd yn y blynyddoedd diweddar wrth symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd (gan gynnwys ar gyfer y mis Medi sydd i ddod) a allwch ddweud pa ystyriaeth a roddodd y cyngor i fynd i'r afael â'r broblem hon yn y dyfodol, gan gynnwys trwy ddweud pa ystyriaeth a roddwyd i ehangu Ysgol Uwchradd Caerdydd o bosibl?

Ymateb

Mae lleoedd o hyd ar gael mewn dalgylchoedd cyfagos ac felly mae gan deuluoedd

fwy nag un opsiwn i'w ystyried yn ogystal ag unrhyw hoffter y byddant yn ei fynegi o bosibl o ran eu hysgol dalgylch

Ymgymerwyd â'r gwaith ar gyfer cynllunio am Band B rhaglen gyfalaf Ysgolion y 21ain ganrif, ond mae datblygu cynigion cynlluniau penodol yn amodol ar gadarnhau dyraniadau gan Lywodraeth Leol, a ragwelir tuag ar ddiwedd mis Hydref 2017. Yn hynny o beth ni chynlluniwyd unrhyw gynigion ac nid chafodd unrhyw ymgynghoriad cysylltiedig a fydd yn ofynnol o bosibl yn y dyfodol ei raglennu hyd yn hyn.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR BERMAN

Odan bolisi derbyniadau ysgolion presennl y cyngor, rhoddir llai o ystyriaeth i ddisgyblion sy'n byw ymhellach o'u hysgol dalgylch os digwydd bod gor-danysgrifio na'r rhai sy'n byw yn agosach er eu bod wedi byw o bosibl yn y dalgylch am gyfnod sylweddol hwy. Gwnaethpwyd sylwadau y llynedd, gan gynnwys gan lawer o rieni ym Mhenylan, i ystyriaeth gael ei rhoi i ddiwygio'r meini prawf fel y gellid ffactoreiddio i mewn hyd y cyfnod y mae disgybl wedi byw yn y dalgylch hefyd. A fydd yr Aelod Cabinet yn ysgyried llunio opsiynau am ddiwygio meini prawf derbyn yr ysgol  fel hyn, fel y gellir cynnwys opsiynau o'r fath pan roddir trefniadau derbyn yr ysgol i'w hystyried nesaf?

Ymateb

Mae'r 'Meini Prawf ar gyfer Gor-tanysgrifio' wedi'u rhestru'n glir yn y wybodaeth derbyniadau a ddarperir i deuluoedd pan fyddant yn gwneud cais. Mae'n glir bod barn ymhlith rhai trigolion yng Nghaerdydd y dylai byw mewn dalgylch neu fynychu ysgol gynradd yn y dalgylch roi hawl i deuluoedd i gael lle i'w plentyn yn ysgol uwchradd eu dalgylch. Mae llawer wedi gofyn am newid i'r meini prawf er mwyn cynnwys maen prawf hirhoedledd.

Ystyriodd y Cabinet adroddiad ar Drefniadau ar gyfer Derbyniadau ar 16 Mawrth 2017 ac awdurdododd swyddogion i ystyried ymhellach drefniadau derbyniadau ysgol y Cyngor, gan gynnwys ymchwil ehangach i opsiynau amgen ac effaith pob un, cyn ymgynghori a Pholisi Derbyniadau Ysgolion y Cyngor 2019/20.

Mae'r ymchwil hwn yn cael ei wneud a bydd yn arwain adroddiad arall i'r Cabinet ar Drefniadau Derbyniadau ar gyfer 2019/20 y disgwylir y caiff ei ystyried yn ddiweddarach eleni, cyn ymgynghoriad blynyddol y mae'n rhaid ei orffern erbyn 1 Mawrth 2018.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR BERMAN

A allwch chi roi'r newyddion diweddaraf i Aelodau ar ba ystyriaeth a roddwyd hyd yn hyn i ddarparu pedwaredd ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg i Gaerdydd a beth yw'r asesiad presennol o ran a fydd gan y tair ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg bresennol ddigon o le i ateb y galw yn y dyfodol?

Ymateb

Yn y blynyddoedd diweddar, bu cynnydd yn y galw am ysgolion cyfrwng Cymraeg wrth ddechrau yn y Dosbarth Derbyn a bur buddsoddiad sylweddol i ddarpariaeth gynradd er mwyn ateb hyn. Fodd bynnag, nid yw'r carfannau mwy yn dechrau yn y sector o'r dechrau wedi symud i mewn i'r sector uwchradd eto.

Rhwng 2016/17 a 2021/22, rhagamcenir y bydd nifer y disgyblion a addysgir drwy gyfrwng y Cymraeg yng Nghaerdydd yn cynyddu i 15.2%, a fydd yn gwneud cyfraniad sylweddol i fwrw'r targedau a osodwyd yn Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd y twf parhaus yn y sector cynradd cyfrwng Cymraeg yn golygu y bydd rhaid wrth gynnydd yn y ddarpariaeth yn y sector uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Ar hyn o bryd mae 16% o warged yn y capasiti net o fewn y sector uwchradd, ar ôl agor y drydedd ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg, sef Ysgol Bro Edern, yn y flwyddyn academaidd 2013/14. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro rhagamcaniadau disgyblion, cynnal astudiaethau dichonolrwydd ac ymgymryd â gwaith cynllunio a datblygu er mwyn sicrhau digon o leoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y Ddinas. Bydd hyn yn arbennig o bwysig yn y safleoedd tai mawr yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn ngogledd-ddwyrain a gorllewin y ddinas.

Yn seiliedig ar y nifer sy'n cymryd lleoedd ar y lefel gynradd a niferoedd y plant y disgwylir y byddant yn symud ymlaen at addysg uwchradd gyfrwng Cymraeg, disgwylir y bydd digon o leoedd ar gael yn y sector uwchradd ar draws y tair ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg drwy gydol amserlen Band B Rhaglen Ysgolion y 21ain ganrif (2019-2024), a bydd gofyn am fuddsoddiad ar ôl 2024 er mwyn cynyddu nifer y lleoedd a ddarperir, gan gymryd y bydd rhagamcanion poblogaeth presennol (gan gynnwys cydnabod datblygiadau'r CDLl) a'r cyfraddau cymryd lleoedd yn parhau.

CYLLID, MODERNEIDDIO A PHERFFORMIAD
(Y CYNGHORYDD CHRIS WEAVER)

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR SANDREY

Mae angen i Gyngor Sir Caerdydd gyflwyno data yn unol â'r bwlch mewn cyflog rhwng y rhywiau erbyn mis Mawrth 2018. Pa waith gafodd ei wneud tuag at hyn?

Ymateb

Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017 yn gofyn am gyhoeddi data ynglŷn â'r bwlch mewn cyflog rhwng y rhywiau, yn seiliedig ar ddyddiad 'cipolwg' sef 31 Mawrth. Cyfeiriodd Polisi Cyflog 2016/17 y Cyngor at y gofyniad hwn a dangosodd y câi'r data ar gyfer 31 Mawrth 2017 ei gynnwys yn y Datganiad Polisi Cyflog 2018/19.

Bu'r sefyllfa yng Nghymru yn fater o drafodaeth ac mae'r Gwasanaeth Cymodi a Chyflafareddu (ACAS), ynghyd â Swyddfa Cydraddoldeb Llywodraeth y DU wedi darparu eglurder yr oedd wir ei angen ar y gofynion ar gyfer awdurdodau lleol

Cymru.

Mae eu harweiniad yn dweud bod awdurdodau cyhoeddus Cymru a restrir yn Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n cynnwys awdurdodau lleol yn ddarostyngedig i'w rheoliadau datganoledig eu hunain. Mae'r rhaid eisoes yn cynnwys adrodd ar y bwlch mewn cyflog rhwng y rhywiau a'r angen i roi ystyriaeth deilwng i fod am amcan cydraddoldeb i fynd i'r afael ag unrhyw achosion gwahaniaethau o ran cyflog person neu bersonau a gyflogwyd gan yr awdurdod o ganlyniad i unrhyw nodwedd a ddiogelir. Cafodd hyn ei nodi o fewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 presennol y Cyngor a bydd yn ffurfio rhan o adroddiadau adolygu blynyddol.

Yn seiliedig ar hyn nid oes gofyn felly i'r Cyngor fodloni'r gofyniad ar adrodd ar y Bwlch mewn Cyflog rhwng y Rhywiau a osodwyd gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn dod o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, sy'n cyfeirio at yr angen i reoli gwahaniaethau mewn cyflog rhwng y rhywiau, yn hytrach na chyhoeddi data yn y fformat penodol sy'n ofynnol gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017.

O ganlyniad, nid oes gofyn i'r Cyngor wneud unrhyw newidiadau i'w drefniadau adrodd presennol; fodd bynnag, bydd angen rhoi ystyriaeth i lefel y data y mae'r Cyngor yn dymuno ei gyhoeddi'n wirfoddol. Yn yr ystyr hwn, mae trafodaethau parhau gyda'r CLILC a'r awdurdodau lleol er mwyn ceisio sefydlu ymagwedd gyffredin ar draws Cymru.

TAI A CHYMUNEDAU
(Y CYNGHORYDD LYNDA THORNE)

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR SANDREY

A Chredyd Cynhwysol i'w weithredu'n llawn ym mis Chwefror 2018, pa waith a wnaed wrth baratoi am hyn, yn benodol yn nhermau paratoi at y cyfnod pontio o 42 diwrnod oherwydd yn ystod y cyfnod hwn ni fydd hawlwyr budd-daliadau yn derbyn unrhyw arian?

Ymateb

Mae Credyd Cynhwysol (UC) yn cymryd lle nifer o fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm gan gynnwys Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith a Budd-Dal Tai a chredydau treth. Ers mis Tachwedd 2015, mae UC yn cael ei gyflwyno'n raddol yng Nghaerdydd i nifer gyfyngedig o hawlwyr. O ganlyniad, mae ychydig dros 2,200 o bobl yn derbyn UC yng Nghaerdydd.

O fis Chwefror 2018, bydd Caerdydd yn symud tuag at "Wasanaeth Llawn" a bydd gofyn i fwy o drigolion wneud cais am UC. Rhagwelir y caiff dros 5,500 o geisiadau y mis eu gwneud nes bod yr holl achosion sy'n hawlio etifeddiaeth (hen fudd-daliadau) wedi symud tuag at UC. Mae'r Cyngor wedi gwneud gwaith paratoadol helaeth cyn ei roi ar waith yng Nghaerdydd.

Mae’n rhaid hawlio “Gwasanaeth Llawn” UC a’i gynnal ar-lein; felly mae cymorth i fynd ar-lein ar gael yn yr holl Hybiau ac mewn lleoliadau cymunedol eraill ar draws y ddinas. Bydd y Gwasanaeth Cynghori I Mewn i Waith hefyd yn helpu pobl i wneud chwiliadau am waith ac i gynnal a chadw cyfrifon UC, sy’n hanfodol er mwyn osgoi budd-daliadau rhag cael eu hatal. Caiff holl staff yr Hybiau eu huwch sgilio er mwyn cefnogi cwsmeriaid y mae angen iddynt hawlio UC.

Telir UC yn fisol yn ôl-syllol ac ni dderbynnir y taliad cyntaf hyd nes o leiaf pum mis ar ôl gwneud y cais. O ganlyniad, mae cymorth gan y Tîm Cyngor Ariannol ar gael o fewn yr holl Hybiau ac erbyn hyn mewn banciau bwyd ar draws y ddinas. Gall y tîm helpu gyda Chymorth Cyllidebu Personol – sydd, yn ogystal â dangos i gleientiaid sut i gyllidebu'n fwy effeithiol - hefyd yn sicrhau bod cleientiaid yn hawlio'r holl grantiau, gostyngiadau, a thaliadau caledi neu argyfwng mae ganddynt hawl iddynt. Mae’r Tîm Cyngor Ariannol wedi derbyn hyfforddiant llawn ac eisoes mae'n llwyddo i gefnogi cleientiaid UC i wneud cais am daliad UC ymlaen llaw yn uniongyrchol o'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ôl yr angen.

Mae cynnydd o ran ôl-ddyledion rhent yn bryder penodol oherwydd caiff taliadau UC (gan gynnwys yr elfen o gost tai) eu gwneud yn uniongyrchol i’r hawliwr, nid yn uniongyrchol i’w cyfrif rhent. Rhoddwyd statws partner i’r Cyngor a’i bartneriaid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (RSL) fel rhan o gynllun peilot a redir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae hyn yn galluogi landlordiaid i ofyn am daliadau UC mwy aml neu wedi'u rhannu ar gyfer cleientiaid. Gallwn hefyd ofyn y caiff elfen cost tai UC ei thalu’n uniongyrchol i’r landlord. Gellir gwneud y trefniadau hyn o dan amgylchiadau penodol yn unig – er enghraifft, pan fydd hawliwr mewn ôl-ddyledion rhent eisoes. Mae’r gallu i landlordiaid cymdeithasol ofyn am y rhain gan yr Adran Gwaith a Phensiynau heb gael eu herio wedi golygu y gellir rhoi cefnogaeth briodol ac amserol i hawlwyr UC er mwyn sicrhau bod tenantiaethau'n parhau'n gynaliadwy ac y caiff ôl-ddyledion rhent eu lleihau.

Bydd rheolwyr yn ymweld ag ardaloedd sydd mewn ‘Gwasanaeth Llawn er mwyn helpu i sefydlu arfer gorau. Cafodd cynllun cyhoeddusrwydd a hyfforddi ei ddatblygu a gaiff ei weithredu mewn pryd ar gyfer dechrau “Gwasanaeth Llawn” yng Nghaerdydd. Bydd y Cyngor hefyd yn cynnal gwahanol ddigwyddiadau partner a rhanddeiliad er mwyn codi ymwybyddiaeth o’r newidiadau hyn yn y cyfnod cyn mis Chwefror 2018.

BUDDSODDI A DATBLYGU
(Y CYNGHORYDD RUSSELL GOODWAY)

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR SANDREY

A’r Arddangosfa Doctor Who wedi cau y mis hwn, a all yr aelod cabinet sydd â’r cyfrifoldeb dros y portffolio hwn gadarnhau a oes unrhyw drafodaethau wedi'u cynnal rhwng y cyngor a BBC Worldwide, yn nhermau atyniad arall i gymryd ei le fod yn yr arfaeth?

Ymateb

Bydd y Cynghorydd yn ymwybodol, fel ymateb i gwestiwn gan ei chydweithiwr, y

Cynghorydd Rodney Berman, yng nghyfarfod mis Gorffennaf 2017 y Cyngor Sir, cadarnheais i y bu trafodaethau'n parhau gyda BBC Worldwide er mwyn sicrhau atyniad arall sy'n gysylltiedig â Doctor Who yn y ddinas. Yn y cyfarfod hwnnw, ymrwymais i gynnwys y Cynghorydd Berman ac Arweinydd yr Wrthblaid yn y trafodaethau hynny ar yr adeg briodol. Gallaf gadarnhau bod fy swyddogion bellach wedi dangos eu bod nhw mewn sefyllfa i rannu cynigion a chaiff cyfarfod ei drefnu'n fuan.

Yn nhermau adeilad blaenorol yr Arddangosfa Doctor Who ym Mae Caerdydd, mae trafodaethau'n parhau gydag Igloo, y tirfeddianwyr, a Llywodraeth Cymru, gyda'r bwriad o gytuno ar y trefniadau prydles ar ôl i'r brydles 5 mlynedd wreiddiol ddod i ben. Os gellir sicrhau prydles newydd, mae nifer o ddefnyddiau posibl sy'n seiliedig ar hamdden i'r adeilad y bydd y Weinyddiaeth yn eu hystyried.

Byddaf yn gwneud datganiad yn y dyfodol agos o ran effaith ariannol ar y Cyngor y penderfyniad gwreiddio i ddod â'r Doctor Who Experience i Fae Caerdydd.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR BALE

A fydd y Weinyddiaeth yn rhoi'r newyddion diweddaraf er mwyn gwella namau trydanol mewn rhai ysgolion Caerdydd a chadarnhau'r swyddog(ion) a'r Aelod (au) Cabinet sy'n arwain ar ymateb y Cyngor?

Ymateb

Gallaf gadarnhau bod gwaith bellach wedi'i gwblhau er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn cydymffurfio.

Er mwyn sicrhau cydymffurfio parhaus, mae'r Weinyddiaeth newydd wedi cyflwyno trefniadau llywodraethu newydd trwy ei swyddogaeth fel Landlord Corfforaethol. Y swyddog blaen sy'n goruchwylio'r swyddogaeth hon yw'r Cyfarwyddwyr Cynorthwyol dros Fasnachol a Chydweithio o fewn y gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd, wedi'i gefnogi gan y Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a'r Rheolwr Cynllunio Sefydliadol Ysgolion.

Rhennir arweinyddiaeth wleidyddol rhyngof i fel yr Aelod Cabinet am Fuddsoddiad a Datblygiad a'm cydweithiwr sef Dirprwy Arweinydd y Cyngor, sy'n Aelod Cabinet gyda chyfrifoldeb dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR BALE

Pa gamau gweithredu a chefnogaeth mae Cyngor y Ddinas wedi'i ddarparu mewn perthynas â colledion swyddi diweddar a gyhoeddwyd gan Fanc Barclays yn Llanisien?

Ymateb

Bydd y Cynghorydd Sir yn sylweddoli ei fod yn fwy tebygol o ddeall y camau gweithredu a gymerir gan y Cyngor Sir yn dilyn cyhoeddiad Barclays oherwydd

sefydlwyd y trefniadau hynny ym mis Mawrth 2017 pan oedd yn gyfrifol am bortffolio datblygu economaidd y Weinyddiaeth ar y pryd.

Rwyf ar ddeall bod y trefniadau hynny'n parhau ar waith ac mae swyddogion y cyngor yn cyfarfod ag uwch- gynrychiolwyr o Barclays er mwyn dysgu rhagor am y pecynnau ariannol a chefnogaeth sydd ar gael i cyflogeion yr effeithir arnynt. Cadarnhaodd y cwmni fod cynllun cynhwysfawr ar gael, gan gynnwys mentora, ailhyfforddi (os bydd angen), dileu swyddi a'r posibilrwydd o adleoli i Dundee yn yr Alban.

Mae'r Weinyddiaeth yn parhau i gysylltu gyda Barclays er mwyn helpu i gyflwyno cwmnïau sy'n buddsoddi yng Nghaerdydd i gyflogeion Barclays sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac yr effeithir arnynt gan gau'r banc, sy'n chwilio am gyflogaeth newydd.

YR ARWEINYDD (Y CYNHGORYDD HUW THOMAS)

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR NAUGHTON

Wrth golli cronfeydd cymdeithasol Ewrop, a rhagweld colli cronfeydd tai cymdeithasol, oherwydd Brexit, a yw'r Cyngor wedi ymgymryd ag unrhyw waith er mwyn meintoli beth fydd y colled ariannol i Gaerdydd o bosibl a sut i fynd i'r afael â'r diffyg?

Ymateb

Ar hyn o bryd mae tair rhaglen ar waith yng Nghaerdydd a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (CCE), sef:

- Ysbrydoli i'r Gwaith (I2W) sydd â'r nod o hyrwyddo cyflogaeth, addysg a chyfleoedd hyffordd i bobl ifanc, wedi'u cefnogi gan £0.3m o arian yr CCE i Gaerdydd;
- Ysbrydoli i Gyflawni (I2A) – sydd â'r nod o leihau nifer y bobl ifanc sydd mewn perygl o fynd yn NEET, wedi'u cefnogi gan £1.1m o ariannu CCE ar gyfer Caerdydd; a
- Cymunedau ar gyfer Gwaith (C4W) – sef rhaglen wirfoddol i helpu'r rhieni hynny sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur i mewn i gyflogaeth, wedi'u cefnogi gan £1.4miliwn o arian CCE i Gaerdydd.

Mae rhagor o drafodaethau hefyd yn cael eu cynnal gan ystyried projectau cyflogadwyedd ychwanegol.

Dyrennir arian y CCE ar sail bidio ac nid oes gwarant o feysydd yn llwyddo i ddenu arian. Hefyd nid yw'r Cronfa Gymdeithasol Ewrop hefyd yn cael ei defnyddio i gefnogi tai cymdeithasol yng Nghaerdydd.

O ystyried colli Arian Strwythurol yr UE yn y dyfodol, mae Llywodraeth Y DU yn cynnig sefydlu 'cronfa ffyniant a rennir' fel rhywbeth i gymryd ei le. Mae lefel ac ystod hyn eto i'w pennu.

Yng ngoleuni hyn, rydym wedi gwneud ymrwymiad, fel yr amlinellir yn ein dogfen Uchelgais Prifddinas i: *“Weithio gyda phobl eraill er mwyn sicrhau bod unrhyw gyllid Ewropeaidd a gollir i Gaerdydd o adael yr Undeb Ewropeaidd, gan hyrwyddo mynediad dirwystr at y Farchnad Sengl yn gryf, a gwarantau ar gyfer myfyrwyr a gweithwyr.”*

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR BALE

A fydd yr Arweinydd yn cyhoeddi cylch gorchwyl yr ymchwiliad annibynnol i reolaeth ystâd eiddo y Cyngor (Para 55, Tud 10, Ch4 Adroddiad Perfformiad y Cabinet dyddiedig 6 Gorffennaf 2017)?

Pa unigolyn mae’r Cyngor wedi penodi i ymgymryd â'r adolygiad hwn a phryd fydd yn adrodd ar y darganfyddiadau?

Ymateb

Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i adolygiad annibynnol, nid ymchwiliad annibynnol. Fel y byddwch yn gwybod, gosodwyd y Cylch Gorchwyl ar gyfer hyn cyn mis Mai 2017 ond gallaf roi copi i chi os bydd gofyn amdano. Hefyd ymgymerwyd â’r penderfyniad i benodi Orion 360 i ymgymryd â’r adolygiad cyn mis Mai 2017.

Deallaf fod yr adroddiad yn cael ei derfynu ar hyn o bryd a disgwylir iddo restru nifer o argymhellion allweddol er mwyn gwella rheolaeth ystad eiddo y Cyngor.

CYNLLUNIO STRATEGOL A THRAFNIDIAETH
(Y CYNGHORYDD CARO WILD)

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR REA

Mae gennyf nifer o faterion diogelwch ar y ffyrdd wedi'u dosbarth o gwmpas y ward; ysgrifennais i atoch ar 20 Mehefin yn gofyn am ymweliad â’r safle ac ailadroddais y cais ar 20 Gorffennaf; ar 24 Gorffennaf dywedoch chi eich bod ar fin trafod fy mhryderon gyda swyddogion. Ers hynny nid wyf wedi clywed unrhyw beth. Pryd byddwch yn dod i Radur a Phentrepoeth i edrych ar fy ngwahanol bryderon a'u datrys?

Ymateb

Hoffwn i ymddiheuro am beidio â chysylltu yn ôl â chi ynglŷn ag ymweliad safle posibl â’ch ward. Roeddwn i o dan yr argraff eich bod yn cael deialog gynhyrchiol gyda swyddogion ac nad oeddech angen i mi ymweld â chi yn bersonol ar y cam hwn. Gallaf sicrhau i chi fy mod i wedi cael y newyddion diweddaraf yn rheolaidd yn y maes a godwyd gennych chi a chan eraill. Hoffwn i ddod i ymweld a byddaf yn trefnu ymweliad pan fydd yn gyfleus i chi.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR McKERLICH

Beth oedd cyfanswm cost y project i wneud Heol Y Gadeirlan a'r strydoedd cyfagos yn barth 20 mya gydag arwyddion, marciau ffordd a gorchmynion rheoleiddiol?

Ymateb

Mae'r gwaith hwn yn ffurfio rhan o broject tri cham parhaus i osod cyfyngiadau 20 mya yn yr ardaloedd Treganna a Glanyrafon, a fydd yn cael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.

Cost gyfunol y gwaith ar y gosodiadau ar gyfer dau gam cyntaf y cynllun yng ngogledd Glan-Yr-Afon a Threganna yw tua £180,000. Fel y gallwch sylweddoli, mae'n anodd costio pob stryd yn unigol.

Byddwn hefyd yn ychwanegu, mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd yn ddrutach ac yn peri dryswch i hepgor rhai ffyrdd penodol, oherwydd y byddai'n ofynnol rhoi gwybod i ddefnyddwyr o newidiadau i'r terfyn cyflymder mewn nifer o leoliadau.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR McKERLICH

Ym mhob un o'r 3 blynedd diwethaf, faint o gerddwyr gafodd eu hanafu gan gerbydau modur ar Heol Y Gadeirlan?

Mewn faint o'r achosion hyn oedd y cerbydau'n symud ar gyflymder o rhwng 20 a 30 o filltiroedd yr awr cyn y trawiad?

Ymateb

Yn gyntaf, dylid nodi bod y cynllun 20 mya yn gylchfaol, sydd â'r nod o leihau cyflymderau cyffredinol ar draws ardal, nid o stryd i stryd. Byddwn hefyd yn dweud bod deilliannau'r ardaloedd 20 mya nid yn unig ynglŷn â lleihau trawiadau, ond hefyd am fuddion eraill megis gwneud yr ardal yn fwy hydrin i feicwyr a cherddwyr.

Mae adolygiad o gronfa ddata anafiad-trawiad yr Heddlu, y mae'r wybodaeth ganlynol ar gyfer Heol Y Gadeirlan wedi'i hechdynnu, yn dangos, rhwng 2013 a 2015 bu un cofnod o drawiad rhwng cerbyd/cerddwr.

Nid yw'r data ar gyfer 2016 ar gael eto. Yn ogystal, nid yw'r Heddlu yn cofnodi data cyflymder ar y gronfa ddata anafiad /trawiad.

CWESTIWN YSGRIFENEDIG GAN Y CYNGHORYDD SIR TAYLOR

Pa gynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud tuag at gyflwyno Ardoll Seilwaith Cymunedol yng Nghaerdydd er mwyn sicrhau nad yw datblygiadau mawr, megis y rhai yn fy ward yng Ngabalfa ar gyfer 361 o ystafelloedd i fyfyrwyr yn cael effaith niweidiol ar y gymuned leol trwy ofyn i ddatblygwyr fuddsoddi yn y seilwaith lleol?

Ymateb

Ymgymerwyd â gwaith ar baratoi Ardoll Seilwaith Cymunedol (Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) ar gyfer Caerdydd; fodd bynnag, nid yw hyn ar waith eto.

Yn dilyn cyhoeddi'r 'Adolygiad CIL' gan Adran Llywodraeth y Cymunedau a Llywodraeth Leol yn gynharach eleni, rydym ar hyn o bryd yn aros am farn Llywodraeth Cymru ac arweiniad ganddo, o ran sut y caiff CIL ei gynyddu yng Nghymru cyn symud ymlaen. Dylid nodi, fodd bynnag, fod y Rheoliadau presennol yn gofyn am 15% o unrhyw Ardoll i gael ei wario yn unig o fewn cymunedau lleol.

Ystyriwyd hyfywedd datblygu wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mae polisïau sy'n gofyn am rwymedigaethau cynllunio, tai fforddiadwy a seilwaith cymunedol i gyd yn gynwysiedig yn y CDLl mabwysiedig At hynny, mae'r Cyngor wedi paratoi canllawiau cynllunio atodol (CCA) cymeradwy, sy'n disgrifio'r holl rwymedigaethau sy'n ofynnol o'r mathau gwahanol o ddatblygiadau er mwyn sicrhau darparu'r seilwaith sydd ei angen. Mae rhwymedigaethau cynllunio adran 106 yn parhau i gael eu sicrhau a dyma'r mecanwaith gorau ar gyfer darparu cyfraniadau tuag at seilwaith y gymuned leol o ddatblygu.

Er nad allaf wneud sylw ar gais cynllunio cyfredol sydd heb ei bennu eto, byddwn yn pwysleisio y caiff pob cais ei ystyried ar ei rinweddau cynllunio, o ystyried pob ffactor cynllunio sylweddol. Ni fyddai cyflwyno unrhyw CIL yn newid y sefyllfa hon.